

Prifysgol Glyndŵr

Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol



Ar gyfer y flwyddyn yn diwedd **31 Gorffennaf 2021**

CYNNWYS

Adroddiad Cadeirydd y Bwrdd Llywodraethwyr	1
Llywodraethwyr ac Ymddiriedolwyr y Brifysgol	5
○ Presenoldeb Llywodraethwyr	7
○ Annibyniaeth Llywodraethwyr	8
○ Rheoli Gwrthdrawiad Buddiannau	8
Gweledigaeth a Strategaeth y Brifysgol 2025	8
Adolygiad blwyddyn yr adroddiad gan yr Is-Ganghellor	10
Tueddiadau'r Sector	13
Adroddiadau Pwyllgorau	
○ Y Pwyllgor Archwilio	15
○ Y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid	16
○ Y Pwyllgor Adnoddau Dynol	17
○ Y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu	19
○ Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol	21
○ Pwyllgor Gweithredol yr Is-Ganghellor	22
○ Y Bwrdd Academaidd	23
Cydnabyddiaeth Ariannol yr Is-Ganghellor	24
Adroddiad Blwyddyn Ariannol 2020/21	26
Gwybodaeth Elusennol	32
Datganiad Budd Cyhoeddus	33
Datganiad Llywodraethu Corfforaethol a Datganiadau Rheolaethau Mewnol	37
Cyfrifoldebau'r Bwrdd Llywodraethwyr	42
Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol	43
Datganiad y prif bolisi'au cyfrifyddu	49
Datganiadau Ariannol	57

ADRODDIAD CADEIRYDD Y BWRDD LLYWODRAETHWYR



Cenhadaeth y Brifysgol yw ysbrydoli a galluogi; trwy addysg uwch, ymchwil ac ymgysylltu; gan weithio ar y cyd gyda'n myfyrwyr, staff a phartneriaid. Mae gwerthoedd y Brifysgol o fod yn hygyrch, cefnogol, arloesol ac uchelgeisiol yn parhau wrth graidd y gwaith rydym ni'n ei wneud.

Cyflwyniad

Roedd blwyddyn academaidd 2020/21 yn flwyddyn heriol arall i bawb gyda'r pandemig yn parhau; fodd bynnag, mae staff a myfyrwyr wedi parhau'n gadarn a phenderyfnol, ac mae gennym ni lawer i fod yn falch ohono. Yn yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr 2021 roeddem ni yn y pedwerydd safle yng Nghymru o ran boddhad myfyrwyr yn gyffredinol, yn gyntaf yng Nghymru o ran 'yr addysgu ar fy nghwrs', 'cyfleoedd dysgu' ac 'asesu ac adborth', yn ail yng Nghymru o ran 'llais y dysgwr' a 'threfnu a rheoli' a daeth ein rhaglen nyrsio i oedolion yn gyntaf yn y Deyrnas Unedig o ran boddhad cyffredinol.

Mae'r canlyniadau hyn yn deillio o waith ymroddedig a systemataidd gan ein staff ar draws y Brifysgol, mewn partneriaeth â'r myfyrwyr, dros nifer o flynyddoedd. Mae hyn hefyd wedi cyfrannu at wella ein safle mewn tablau cynghrair y sector, gan fynd i fyny 41 lle yn y Guardian University Guide, a symud i fyny 14 lle yn y Sunday Times Good University Guide, lle cawsom ein gosod yn ail yn y Deyrnas Unedig am ansawdd yr addysgu; symud i fyny 55 lle yn yr WhatUni Student Choice Awards 2021 ac rydym ni yn y pymthegfed safle yn y Complete University Guide o ran boddhad myfyrwyr ag ansawdd yr addysgu maen nhw'n ei dderbyn. Mae'r Brifysgol yn parhau ar y brig yng Nghymru a Lloegr o ran cynhwysiad cymdeithasol.¹

Hoffwn longyfarch ein Tîm Datblygu Academaidd hefyd gan eu bod ymhlith 14 tîm sefydliadol gafodd eu cydnabod am eu gwaith trwy Wobr Gydweithredol Rhagoriaeth Addysgu 2021 Advance HE.

Ein Campws

Mae cynnydd yn parhau o ran cyflawni ein Strategaeth Ystadau ac Amgylchedd Dysgu (Campws 2025) ac yn ystod blwyddyn yr adroddiad cwblhawyd gwaith adnewyddu yn llawr gwaelod y prif adeilad yng nghampws Wrecsam. Roedd hyn yn cynnwys datblygu labordy marchnata, lle i fyfyrwyr weithio ar y cyd a ffug ystafell llys. Aildrefnwyd gwagle i greu hwb dysgu, arloesi a gweithio'n rhithiol er mwyn i staff weithio gyda'i gilydd i beilota ffyrdd newydd o weithio, yn ogystal â chyfres o fannau cymdeithasol a luniwyd i alluogi staff a myfyrwyr gyfarfod, yn cynnwys ystafelloedd astudio tawel, ystafelloedd cyfarfod a lolfeydd. Mae rhaglen adnewyddu ein campws Stryt y Rhaglaw wedi dechrau, gyda'r gwaith dechreuol yn cynnwys adnewyddu'r cyntedd mynedfa a chaffi newydd. Cwblhawyd lefel mezzanine newydd yn ein campws yn Llaneurgain i ategu'r man addysgu nyrsio milfeddygol newydd.

¹ Tabl cynghrair y Sunday Times Good University Guide 2022

Rhaid llongyfarch y Brifysgol ar ei llwyddiant yn tendro am gomisiynau addysgu a chyllid gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Bydd hyn yn arwain at drefniant gweithio triphlyg gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, wedi'i seilio ar bartneriaeth waith sy'n bodoli eisoes a bydd yn galluogi'r Brifysgol i gynyddu ei phortffolio rhaglenni nyrsio a phroffesiynau iechyd cysylltiedig yn sylweddol. Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr wedi cymeradwyo cynnwys ardal newydd Addysg Iechyd ac Arloesi yn ei brosiectau Campws 2025 i letya'r ehangiad arwyddocaol hwn yn y ddarpariaeth a gynigir.

Mae cyllid cyfalaf a dderbyniwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) i brifysgolion Cymru wedi cynorthwyo ein datblygiad campws parhaus, yn enwedig ym meysydd sy'n mynd i'r afael â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru fel y Strategaeth Ddatgarboneiddio, Map yr Economi Werdd a'r Strategaeth Ddigidol.

Perfformiad Ariannol

O ran perfformiad ariannol y Brifysgol mae Grŵp y Brifysgol wedi gwneud gwarged gweithredol o £1.7m ar drosiant o £47.1m. Dyma'r chweched flwyddyn yn olynol mae gwarged gweithredol wedi ein rhoi mewn sefyllfa gref i'r dyfodol, wrth i ni barhau i gynyddu ein cronfeydd wrth gefn. Mae'r adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Chadeirydd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid yn ddiweddarach yn y ddogfen hon yn rhoi mwy o fanylion am sefyllfa ariannol y Brifysgol. Fel bob amser, rheolaeth ariannol gadarn yw'r allwedd i sicrhau cynaliadwyedd y Brifysgol.

Diwylliant a Llywodraethu Cryf

Mae ymrwymiad llwyr i lywodraeth da yn parhau'n hanfodol i gynnal hyder rhanddeiliaid yn y Brifysgol ac i'n cynorthwyo i wireddu ein Gweledigaeth a Strategaeth. Yn ystod blwyddyn yr adroddiad mae'r Bwrdd Llywodraethwyr, trwy waith y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu, wedi parhau i roi ein gynllun gweithredu mewn ymateb i'r *ymrwymadau gweithredu* yn deillio o Adolygiad Camm 2019 ar Lywodraethu Prifysgolion yng Nghymru ar waith. Un o'r themâu allweddol yn Adolygiad Camm oedd pwysigrwydd diwylliant sefydliadol a llywodraethu cadarnhaol ac agored. Tybir bod diwylliant yn chwarae rhan fawr yn galluogi byrddau a sefydliadau i ymdrin â newidiadau arwyddocaol yn yr amgylchedd allanol, megis newid yn y gefnogaeth wleidyddol a chyhoeddus, cystadlu am gyllid a chystadlu am fyfyrwyr. Mae'r adroddiad hefyd yn hybu gwrandio ar staff o ran eu cefnogaeth i gyfeiriad strategol y Brifysgol ac am ddiwylliant y sefydliad mewn gwirionedd a ph'un ai yw'n cyd-fynd â gwerthoedd y sefydliad ai peidio.

Mae llawer o ffyrdd y medrwn ni ddeall a mesur diwylliant y Brifysgol. Un mecanwaith allweddol yw ein harolwg ymgysylltu â staff a gynhelir bob dwy flynedd, a gynhaliwyd yn ystod blwyddyn yr adroddiad. Mae'r arolwg yn cyd-fynd ag elfennau'r fframwaith Buddsoddwyr mewn Pobl, yn cael ei feincnodi'n allanol ac mae'n cwmpasu meysydd arwain ac ysbrydoli pobl, byw gwerthoedd y Brifysgol; grymuso a chynnwys pobl; rheoli perfformiad; adnabod a gwobrwyo perfformiad da; strwythuro gwaith; creu galluedd; darparu gwella parhaus a chreu llwyddiant cynaliadwy. Mae'n cynnwys cwestiynau am sut mae'r staff yn dirnad y Bwrdd ac rwy'n falch o ddweud bod 85% o'r staff o'r farn bod y llywodraethwyr yn cefnogi ac yn hybu cenhadaeth y brifysgol, cynnydd o 20% ers cynnal yr arolwg cyntaf o'i fath yn 2016.

Roedd canlyniadau'r arolwg ymgysylltu â staff wedi gwella ymhob maes o'i gymharu â chanlyniadau arolygon 2016 a 2018. Yn benodol, nododd 95% o staff eu bod yn cefnogi nodau ac amcanion y Brifysgol, tra bo 93% yn ymwybodol o'i gwerthoedd ac yn ystyried y Brifysgol yn lle cyfeillgar i weithio

ynndi. Roedd y cynnydd mwyaf arwyddocaol yn y sgorau yn ymwneud â rhyngweithio ac ymgysylltu cydweithwyr â'i gilydd, er enghraifft, yn rhannu arfer dda. Ers arolwg 2018 mae'r rheolwyr wedi gwneud ymdrech benodol a systemataidd i adnabod y materion yr oedd angen mynd i'r afael â nhw a daeth y Bwrdd i'r casgliad ei bod yn amlwg bod diwylliant cadarnhaol yn bodoli yn y Brifysgol a bod staff yn deall eu rolau a'u cyfraniad i lwyddiant y sefydliad.

Aelodaeth y Bwrdd

Penododd y Bwrdd dri llywodraethwr annibynnol newydd yn ystod y flwyddyn yn unol â'i broses ddethol gymeradwy ar gyfer llywodraethwyr annibynnol newydd. Goruchwyliwyd y broses gan Bwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu'r Bwrdd ac roedd yn cynnwys hysbysebion, ystyried ymgeiswyr a phroses gyfweiliadau cam un a cham dau, yn arwain at gyflwyno argymhellion i'r Bwrdd i gymeradwyo penodi'r unigolion. Roedd yn bleser gennym ni groesawu Richard Thomas, Maureen Wain a Diane McCarthy yn aelodau'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2021. Yn anffodus ymddiswyddodd Dr Jayne Mitchell o'r Bwrdd ym mis Awst 2021 am resymau personol, ac yn dilyn proses ddethol arall roeddem yn falch iawn o groesawu'r Athro Martin Chambers yn aelod o'r Bwrdd ym mis Medi 2021. Mae'r aelodau wedi cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau cynefino ac maen nhw eisoes yn gwneud cyfraniadau rhagorol i waith y Bwrdd.

Croesawodd y Bwrdd barhad aelodaeth Chloe Williams, a oedd newydd ei hethol yn Llywydd yr Undeb Myfyrwyr ym mlwyddyn yr adroddiad, er iddi ymddiswyddo yn ddiweddarach ym Medi 2021 i dderbyn cyfle gyrfa cyffrous. Er bod y Bwrdd yn siomedig o golli Chloe, dymunwn y gorau iddi yn ei gyrfa yn y dyfodol. Roedd yn bleser croesawu Lauren Hole, y Llywydd newydd ei phenodi, fel llywodraethwyr. Aeth yr Undeb Myfyrwyr trwy broses enwebu ac ethol i benodi myfyriwr llywodraethwr newydd, Amy Rowley, i gynnal llais myfyriwr cryf ar y Bwrdd. Diolchwyd i Ebony Banks, Llywydd yr Undeb Myfyrwyr yn ymddeol, am ei gwaith i gyfraniad y Bwrdd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

Casgliad

Fel bob amser, hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i staff, myfyrwyr, yr Undeb Myfyrwyr a'r llywodraethwyr am eu hymroddiad, hyblygrwydd a'u gwydnwch. Yn dilyn bron i ddwy flynedd o reoli'r ansicrwydd a'r heriau, yn ogystal â'r cyfleoedd, a gyflwynwyd gan bandemig Covid-19, rydym ni'n dechrau blywyddyn academaidd 2021/22 gyda ffyrdd newydd o weithio i staff a myfyrwyr, a fydd yn parhau i esblygu ac yn ein gadael mewn lle cadarnach i wynebu heriau'r dyfodol.

Gan y byddaf yn gadael y Bwrdd Llywodraethwyr ar ddiwedd mis Mawrth 2022, ar ôl cwblhau dau gyfnod llawn fel Cadeirydd, hwn fydd yr adroddiad blynyddol olaf y byddaf yn ei gyflwyno. Mae'n darparu adeg delfrydol i mi gymryd cam yn ôl ac adlewyrchu ar y newidiadau sydd wedi digwydd, a'r cynnydd a wnaed gan y Brifysgol yn ystod y chwe blynedd ddiwethaf.

Deuais i'n aelod o'r Bwrdd yn 2015, pan oedd y Brifysgol wedi dechrau ar y broses sefydlogi yn dilyn cyfnod o ddiffyg ariannol difrifol. Serch hynny, roedd yn parhau i dderbyn cyllid adfer gan CCAUC, roedd yr adeiladau angen buddsoddiad brys ac roedd angen i'r brifysgol fenthycu ar gyfer dibenion cyfalaf gweithiol o ddydd i ddydd. Mae'r cyfrifon diweddaraf yn gweld y chweched flwyddyn yn olynol o gyflawni gwarged gweithredol; mae cronfeydd wrth gefn wedi'u hatgyfnerthu wedi dileu'r angen i fenthycu cyfalaf gweithiol; ac mae tua £20 miliwn wedi'i fuddsoddi yng ngwella'r ystad eisoes dan ein Strategaeth Campws 2025 uchelgeisiol. Ymehllach, mae Prifysgol Glyndŵr Wrecsam wedi bod yn llwyddiannus iawn yn ehangu ac arallgyfeirio ei weithgareddau gweithredol mewn ymateb i amodau'r farchnad yn newid. Yn ogystal â'r myfyrwyr yn astudio yn ein campysau yn Wrecsam a

Llaneurgain yn 2020/21, roedd 1,855 o fyfyrwyr yn astudio am ddyfarniadau Prifysgol Glyndŵr Wrecsam mewn sefydliadau partner dramor a dros 1,200 yn dilyn cyrsiau'r Brifysgol ar-lein yn gyfangwbl. Adolygwyd cwricwlwm a gweithgareddau gweithredol y Brifysgol a'u llinio mewn ymateb i amgylchiadau'n newid, ac mae fy mharagraffau agoriadol yn tynnu sylw at berfformiad rhagorol y Brifysgol yn y tablau cynghrair diweddaraf ac yn yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr. Ni ddigwyddodd y llwyddiannau hyn dros nos. Dyma ffrwyth gweithredu cyson ac ymroddedig gan ein staff a'n huch reolwyr rhagorol i wella'r rhagolygon busnes, effeithiolrwydd gweithredol, ansawdd academaidd a phrofiad y myfyrwyr dros gyfnod o bum mlynedd. Mae'r parodrwydd i ymateb ac arloesi a'r ymrwymiad i ragoriaeth, cymorth a chynhwysiad rydw i wedi'i weld wedi gwneud argraff ddofn arna' i.

Bu'n ffrwyth ac anrhydedd gwasanaethu Prifysgol Glyndŵr Wrecsam fel Cadeirydd ac arwain criw o aelodau Bwrdd mor alluog, ymroddedig a diwyd a bod yn dyst i ymroddiad yr Is-Ganghellor a'i staff i sicrhau ragoriaeth a gwella parhaus. Cyflawnwyd llawer, ond mae llawer o gyfleoedd yn parhau, a dymunaf bob llwyddiant i'r Brifysgol a'r Cadeirydd newydd yn ystod y blynyddoedd i ddod.

Maxine Penlington OBE FLSW
Cadeirydd y Llywodraethwyr

Y BWRDD LLYWODRAETHWYR



Penodwyd Rhagfyr 2015

Cadeirydd y Bwrdd

Cadeirydd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu
Aelod *ex officio* y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid a'r
Pwyllgor Adnoddau Dynol



Paul Barlow

Penodwyd Rhagfyr 2018

Is-gadeirydd y Bwrdd

Is-gadeirydd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid
Aelod o'r Pwyllgor Adnoddau Dynol



Judy Owen

Penodwyd Mai 2016

Cadeirydd y Pwyllgor
Strategaeth a Chyllid

Cyfarwyddwr Anweithredol
Glyndwr Services Ltd



Paul McGrady

Penodwyd Mai 2016

Cadeirydd y Pwyllgor
Archwilio



Yr Athro Sandra Jowett

Penodwyd Mai 2016

Cadeirydd y Pwyllgor
Adnoddau Dynol Cadeirydd y
Pwyllgor Cydnabyddiaeth



Jim Barclay

Penodwyd Mawrth 2019

Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio
Cyfarwyddwr Anweithredol
Glyndwr Innovations Ltd



Celia Jenkins

Penodwyd Mai 2015

Is-gadeirydd y Pwyllgor
Enwebiadau a Llywodraethu



David Subacchi

Penodwyd Medi 2016

Is-gadeirydd y Pwyllgor
Adnoddau Dynol
Aelod o'r Pwyllgor Archwilio



Claire Homard

Penodwyd Chwefror 2020

Aelod o'r Pwyllgor
Enwebiadau a Llywodraethu



Askar Sheibani

Penodwyd Ionawr 2016

Cyfarwyddwr Anweithredol
North Wales Science Ltd



Richard Thomas

Penodwyd Gorffennaf 2021

Aelod o'r Pwyllgor Adnoddau
a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth
Ariannol



Maureen Wain
Penodwyd Gorffennaf 2021
 Aelod o'r Pwyllgor
 Strategaeth a Chyllid



Diane McCarthy
Penodwyd Gorffennaf 2021
 Aelod o'r Pwyllgor Archwilio



Yr Athro Martin Chambers
Penodwyd Medi 2021
 Aelod o'r Pwyllgor Strategaeth a
 Chyllid



Laura Gough
*Penodwyd Rhagfyr 2017 -
 2021*
 Etholwyd yn Llywodraethwr
 Staff Gwasanaethau
 Proffesiynol



Colin Heron
Penodwyd Medi 2018
 Enwebai'r Bwrdd
 Academaidd
 Aelod o'r Pwyllgor
 Enwebiadau a
 Llywodraethu



David Sprake
Penodwyd Ebrill 2019
 Etholwyd yn Llywodraethwr
 Staff Addysgu
 Cyfarwyddwr Anweithredol
 Glyndwr Innovations Ltd




Sally Lambah
Penodi Medi 2021
 Etholwyd yn
 Llywodraethwr Staff
 Gwasanaethau
 Proffesiynol




Ebony Banks
*Gorffennaf 2019 –
 Gorffennaf 2021*
 Myfyriwr Lywodraethwr
 Aelod o'r Pwyllgor
 Enwebiadau a Llywodraethu



Chloe Williams
Gorffennaf 2020 – Medi 2021
 Myfyriwr Lywodraethwr



Lauren Hole
Penodwyd Gorffennaf 2021
 Myfyriwr Lywodraethwr
 Aelod o'r Pwyllgor
 Enwebiadau a
 Llywodraethu



Amy Rowley
Penodwyd Medi 2021
 Myfyriwr Lywodraethwr



Yr Athro Maria Hinfelaar
Is-Ganghellor a Phrif Weithredwr
Aelod *ex officio* y Pwyllgor Strategaeth
a Chyllid, y Pwyllgor Adnoddau
Dynol a'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu

CYFRADD PRESENOLDEB YNG NGHYFARFODYDD Y BWRDD

Aelodau	Cyfradd presenoldeb
Maxine Penlington	100%
Paul Barlow	80%
Ebony Banks	100%
Jim Barclay	100%
Laura Gough	80%
Colin Heron	80%
Yr Athro Maria Hinfelaar	100%
Lauren Hole ²	100%
Claire Homard	80%
Celia Jenkins	80%
Yr Athro Sandra Jowett	100%
Diane McCarthy ³	100%
Paul McGrady	100%
Dr Jayne Mitchell ⁴	100%
Judy Owen	100%
Askar Sheibani	80%
David Sprake	80%
David Subacchi	100%
Chloe Williams	100%
Richard Thomas ²	100%
Maureen Wain ²	100%

² Daeth Lauren Hole yn aelod o'r Bwrdd ar 1 Gorffennaf ac roedd yn gymwys i fynychu un cyfarfod yn unig, ac roedd yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw.

³ Daeth Diane McCarthy, Richard Thomas a Maureen Wain yn aelodau'r Bwrdd ar 1 Gorffennaf ac roeddynt yn gymwys i fynychu un cyfarfod yn unig cyn diwedd y flwyddyn academaidd.

⁴ Caniataodd y Bwrdd gyfnod absenoldeb byr i Dr Jayne Mitchell am resymau personol yn cwmpasu tri chyfarfod. Roedd Dr Mitchell yn bresennol yn y ddau gyfarfod y disgwyliwyd iddi eu mynychu. Ymddiswyddodd o fod yn aelod o'r Bwrdd wedi hyn.

ANNIBYNIAETH LLYWODRAETHWYR

Mae cyfansoddiad y Bwrdd yn nodi bod rhaid i fwyafrif ei aelodaeth fod yn aelodau annibynnol a benodir mewn modd clir a thryloyw. Amlinellir y broses benodi yn adroddiad y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

Argymhellodd Adolygiad Llywodraethu Prifysgolion yng Nghymru (Camm) yn 2019 y dylid pennu lefel uwch o ran annibyniaeth llywodraethwyr nag a oedd yn bodoli ar adeg yr adolygiad, ac y dylai'r materion hynny a allai gyfaddawdu annibyniaeth llywodraethwyr gael eu cyhoeddi'n gyhoeddus, gyda gwybodaeth ategol yn cael ei chyhoeddi gan brifysgolion yn flynyddol o leiaf.

Datblygwyd canllawiau ynghylch Annibyniaeth Llywodraethwyr ar gyfer Prifysgolion Cymru gan ddefnyddio arferion da llywodraethu yn y sector prifysgolion a'r sector corfforaethol, gyda'r disgwyliad ei fod yn cael ei fabwysiadu gan holl gyrff llywodraethu prifysgolion yng Nghymru. Mae Bwrdd Prifysgol Glyndŵr wedi mabwysiadu'r canllawiau fel set o egwyddorion i gefnogi llywodraethu da.

Llywodraethwyr annibynnol yw'r rhai a benodir gan y Bwrdd nad ydynt yn fyfyrwr cofrestredig nac yn aelod o staff y Brifysgol, nac yn unigolyn o awdurdod lleol etholedig. Mae llywodraethwyr annibynnol yn allweddol i gynyddu ymddiriedaeth y cyhoedd mewn prifysgolion, ac mae Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu'r Bwrdd yn ystyried annibyniaeth darpar llywodraethwyr yn ystod y broses recriwtio gan ddefnyddio'r canllawiau ynghylch annibyniaeth i gyfeirio ato ac fel sail trafodaeth, a chael datganiad buddiannau a llofnodi datganiad cymhwysedd fel ymddiriedolwr⁵ gan bob llywodraethwr.

RHEOLI GWRTHDRAWIADAU BUDDIANNAU

Unwaith y'i penodir mae'r cyfrifoldeb ar lywodraethwyr i fod yn dryloyw a dangos eu hannibyniaeth a datgan unrhyw wrthdrawiadau gwirioneddol neu unrhyw beth y gellid ei ddirnad neu'n meddu ar y potensial i fod yn wrthdrawiad. Fel ymddiriedolwyr elusen mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i lywodraethu er budd gorau'r elusen yn unig, a gall cysylltiadau personol a phroffesiynol, tra'n rhoi manteision i waith y brifysgol, achosi gwrthrawiad buddiannau y mae'n rhaid i lywodraethwyr ymateb iddynt yn effeithiol.

Yn dilyn llenwi ffurflen datgan buddiannau ar adeg ymuno â'r Bwrdd Llywodraethwyr mae'n ofynnol i lywodraethwyr adolygu a diwygio eu datganiad fel bo'n berthnasol, yn flynyddol o leiaf, a hysbysu Clerc y Bwrdd am unrhyw newidiadau i'w hamgylchiadau yn ystod y flwyddyn academaidd sy'n effeithio ar eu datganiad buddiannau. Cyhoeddir rhestr o fuddiannau aelodau ar wefan y Brifysgol. Mae gan y Bwrdd broses hefyd i'r holl lywodraethwyr ddatgan unrhyw fuddiannau'n rhagweithiol ar ddechrau pob cyfarfod Bwrdd a Phwyllgor o ran unrhyw eitem i'w drafod yn y cyfarfod.

Lle nodir unrhyw wrthdrawiadau gwirioneddol neu'r hyn y gellid ei ddirnad neu â'r potensial i fod yn wrthdrawiad yn ystod trafod busnes y Bwrdd, bydd Cadeirydd y Bwrdd neu'r Pwyllgor perthnasol yn penderfynu ar y dull gweithredu. Fel isafswm ni chaniateir i'r llywodraethwr gymryd rhan yn y drafodaeth ynghylch yr eitem honno. Cofnodir lefel cyfranogiad y llywodraethwr yng nghofnodion y cyfarfod.

⁵ Mae'r holl brifysgolion yng Nghymru yn elusennau cofrestredig ac felly mae llywodraethwyr hefyd yn ymddiriedolwyr.

GWELEDIGAETH A STRATEGAETH 2025

Cynhaliodd y Brifysgol adolygiad a diwygio ei Gweledigaeth a Strategaeth 2025 yn ystod blwyddyn yr adroddiad, sef pwynt canol cyfnod y Strategaeth. Gwnaeth hyn gynnwys newid rhai nodau ac amcanion o gofio'r hyn a gyflawnwyd, ac yn sgîl y newid yn y cyd-destun. Cymeradwyodd y Bwrdd Llywodraethwyr y Weledigaeth a Strategaeth 2025 ddiwygiedig yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2021, a chyhoeddwyd y ddogfen yn ddigidol yn Gymraeg a Saesneg ar wefan y Brifysgol yn dilyn hynny.

Cenhadaeth y Brifysgol yw ysbrydoli a galluogi trwy gyfrwng addysg uwch, ymchwil ac ymgysylltu, gan weithio ar y cyd â'n myfyrwyr, staff a phartneriaid. Ein **gwerthoedd** yw bod yn:

- *Hygyrch*
Rydym ni'n angerddol ynghylch dysgu gydol oes ac yn credu na ddylai cefndir ac amgylchiadau fod yn rhwystr i gymryd rhan mewn addysg uwch. Rydym wedi ymrwmo i hygyrchedd, tegwch a chynhwysiant yn y modd rydym ni'n addysgu, ymchwilio a darparu ein gwasanaethau.
- *Cefnogol*
Rydym ni'n meithrin amgylchedd cefnogol i annog ein staff a'n myfyrwyr i weithio gyda'i gilydd i lwyddo yn eu dysgu, eu hymchwil a'u targedau gyrfu. Rydym ni'n frwd ynghylch ein cymunedau ac yn arwain a chefnogi mentrau'n rhagweithiol i gyfoethogi'r economi leol a bywydau pobl leol.
- *Arloesol*
Rydym ni'n gwneud pethau'n wahanol. Rydym ni'n sylweddoli bod ein llwyddiant yn dibynnu ar ynni, deallusrwydd a chreadigrwydd cymuned y Brifysgol ar y cyd. Rydym ni'n annog arloesi a phersbectif newydd yn ein haddysgu, ein ymchwil ac wrth ymgysylltu â chymunedau a phartneriaid. Rydym ni'n cwestiynu'r *status quo* ac yn ddigon dewr i groesawu ffridd newydd o wneud pethau. Mae hyn yn galluogi ein diwylliant, ein polisïau a'n pobl i hybu rhagoriaeth ac ymateb yn effeithiol i'r angen.
- *Uchelgeisiol*
Rydym ni'n uchelgeisiol ar ran ein staff, ein myfyrwyr a'n cymunedau ac yn falch o hynny. Sylweddolwn nad oes unrhyw derfynau i ddysgu a gwybodaeth ac rydym ni'n herio pobl i goleddu eu dyheadau a llwyddo trwy addysg.

Mynegir **cenhadaeth a gwerthoedd** y Brifysgol yn ein **gweledigaeth** ar gyfer pedwar parth ein strategaeth: *addysgu sy'n ysbrydoli, ymchwil sy'n gweddnewid, ymgysylltu sy'n galluogi a strwythur sy'n cynnal*.

Mae'r parthau hyn yn y strategaeth gyda'i gilydd yn siapio ein **gweledigaeth i fod y lle o ddewis** i'n myfyrwyr, ein partneriaid a'n staff.

Rydym ni'n cynnig:

Addysgu sy'n ysbrydoli: galluogi dysgu sy'n ysbrydoli trwy gyfrwng addysgu rhagorol, rhoi cyfleoedd i'n myfyrwyr ffynnu fel dinasyddion byd-eang iach, gweithgar a chyfrifol.

Ymchwil sy'n gweddnewid: cefnogi arloesi, dysgu a thwf economaidd, trwy fod yn rhagorol yn rhyngwladol o ran gwreiddioldeb, arwyddocâd a thrylwyrder.

Ymgysylltu sy'n galluogi: cyfoethogi'r rhanbarth a thu hwnt, cefnogi a datblygu unigolion, cymunedau, diwylliant a'r gymuned.

Strwythur sy'n cynnal: darparu gwasanaethau ac isadeiledd gweithredol sy'n cefnogi pob rhan o'r strategaeth; cyflawni rhagoriaeth trwy gyfrwng pobl, lleoedd ac adnoddau.

ADOLYGIAD BLWYDDYN YR ADRODDIAD GAN YR IS-GANGHELLOR



Mae'r tabl isod yn nodi rhai o brif lwyddiannau'r Brifysgol yn ystod blwyddyn yr adroddiad yn erbyn y parthau yn yr Weledigaeth a Strategaeth hyd at 2025.

Addysgu sy'n ysbrydoli	Ymchwil sy'n gweddnewid	Ymgysylltu sy'n galluogi	Strwythur sy'n cynnal
<p>Ymatebodd y Brifysgol i her Covid-19 trwy weithredu'r 'Fframwaith Dysgu Gweithredol': dull hyblyg, cyfunol yn cadw at gyfyngiadau canllawiau iechyd cyhoeddus.</p> <p>Gweithiodd staff academiaidd a staff gwasanaethau proffesiynol yn hynod o galed i gefnogi ein myfyrwyr a sicrhau eu bod yn cael profiad da, er gwaethaf yr amgylchiadau anodd. Adlewyrchwyd hyn mewn rhai canlyniadau ar frig y sector yn yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr: 'addysgu ar fy nghwrs' ar 86% a oedd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan a'r Deyrnas Unedig gyfan; 'asesu ac adborth' ar 82% a</p>	<p>Cyflwynodd y Brifysgol ystod o feysydd pwnc dan Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021, yn cynnwys Peirianeg, Cyfrifiadura, Cyfiawnder Troseddol a'r Celfyddydau Creadigol. Roedd allbynnau ymchwil perthnasol fel papurau ymchwil, dogfennau polisi, arddangosfeydd ac arteffactau'n ffurfio rhan o'r cyflwyniad, ynghyd â disgrifiad o'u rhagoriaeth a'u heffaith.</p> <p>Gwnaed penodiadau allweddol er mwyn cynyddu'r capasiti ymchwil ymhellach, wrth i'r sefydliad weithio tuag at ennill ei Bwerau Dyfarnu Graddau Ymchwil ei hun.</p>	<p>Mae'r Brifysgol wedi dyfnhau ei hymgysylltu â diwydiant a'r gymuned yn ystod y pandemig mewn ffyrdd lluosog. Darparwyd cyrsiau byr, hyblyg, ar-lein i fusnesau lleol ac unigolion yn awyddus i ailsgilio. Darparwyd cynnwys digidol i'n rhwydwaith ysgolion yn y rhanbarth hefyd.</p> <p>Fel rhan o'n Strategaeth Ymgysylltu Dinesig rydym yn cael ein hystyried yn arweinwyr ar fforymau cydnerthedd lleol ac mae gennym ni gysylltiadau rhagorol â chyrff iechyd cyhoeddus. Rydym ni wedi bod yn rhagweithiol yn cynnig cyfeusterau at ddibenion iechyd cyhoeddus.</p> <p>Lluniwyd partneriaethau newydd sylweddol ar y llwyfan rhyngwladol yn yr India, Tsieina a Sri Lanka. Bydd y rhain yn</p>	<p>Cynhyrchwyd refeniw ychwanegol gan feysydd twf newydd (yn gysylltiedig â strategaeth arallgyfeirio'r Brifysgol, creu dulliau darparu a llwybrau astudio newydd). Ehangodd y meysydd hyn yn gyflymach na'r disgwyl gan ategu'r canlyniad ariannol cadarnhaol.</p> <p>Hwb annisgwyl arall oedd y cyllid hael gan CCAUC dan amrywiol gynlluniau cymorth Covid ac adfer yn dilyn Covid. Cafodd y cyllid hwn effaith gadarnhaol ac roedd yn cynnwys cyllid refeniw yn ogystal â chyllid cyfalaf, a gwnaeth wahaniaeth mawr i'r modd y medrodd y Brifysgol roi cymorth i fyfyrwyr.</p>

Addysgu sy'n ysbrydoli	Ymchwil sy'n gweddnewid	Ymgysylltu sy'n galluogi	Strwythur sy'n cynnal
<p>oedd yn sylweddol uwch na chyfartaledd y sector ar 69%; fe wnaeth 'cymorth academaidd' ar 77% hefyd berfformio'n uwch na chyfartaledd y sector o 74%. Roedd Prifysgol Glyndŵr Wrecsam yn y pedwerydd safle o ran 'boddhad cyffredinol' o blith yr 8 prifysgol yng Nghymru.</p> <p>Roedd y gymysgedd myfyrwyr cofrestredig yn y brifysgol yn dangos darlun cynyddol amrywiol. Arhosodd niferoedd y myfyrwyr llawn amser domestig (is-raddedig ac ôl-raddedig) yr un fath, ond bu cynnydd mawr yn nifer y myfyrwyr yn dilyn cyrsiau ar-lein, partneriaeth addysg drawswladol a myfyrwyr rhyngwladol.</p>	<p>Gwnaeth Canolfan Optic Llanellwy adeiladu'n llwyddiannus ar ei enw da trwy'r Ganolfan Rhagoriaeth Ffotoneg a gyllidwyd gan WEFO, gyda phartneriaethau cryf rhwng academia a'r diwydiant.</p> <p>Derbyniodd y Brifysgol grant arwyddocaol gan CCAUC trwy Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru tuag at y rhyngberthynas rhwng Ymchwil, Datblygu ac Arloesi a menter.</p>	<p>cynorthwyo'r Brifysgol i gynyddu cofrestru myfyrwyr addysg drawswladol a llwybrau i ôl-raddedigion a myfyrwyr rhyngwladol yn dod i'n campysau yn y Deyrnas Unedig (yn ddarostyngedig i gyfyngiadau teithio).</p> <p>Mae partneriaethau allweddol yn y Deyrnas Unedig yn cynnwys y coleg addysg bellach lleol, Coleg Cambria. Llofnodwyd cytundeb cydweithredu newydd â'r Coleg.</p>	<p>Gwnaeth y Cynllun Meistr Campws 2025 gadw at ei dargedau, gyda derbynion cyfalaf mawr ar fin dod i mewn yn dilyn gwaredu safleoedd y Chwarter Gogledd, Gatewen a Ffordd y Deon.</p> <p>Dangosodd yr Arolwg Ymgysylltu â Staff, a gynhelir bob dwy flynedd, ganlyniadau da o'u cymharu yn erbyn yr arolwg blaenorol ac yn erbyn y sector a meincnodi. Y categorïau mwyaf amlwg yn yr arolwg oedd 'Arwain ac Ysbrydoli Pobl' a 'Byw Gwerthoedd y Brifysgol.'</p>

Mae'r Brifysgol yn cadw Cofrestr Risgiau Corfforaethol sy'n cyfeirio at barthau'r strategaeth.

Yn achos y parth cyntaf, *Addysgu sy'n ysbrydoli*, nodwyd risgiau ym meysydd cynllunio academaidd, arallgyfeirio'r portffolio, dyluniad rhaglenni, darparu rhaglenni a throsolwg. Roedd y mesurau lliniaru'n cynnwys adolygu'r portffolio a'r llwybrau dysgu'n barhaus, gweithredu egwyddorion y Fframwaith Dysgu Gweithredol yn llwyr, gwreiddio nodweddiad Graddedigion Glyndŵr yn y cwricwlwm a sicrhau rhaglen datblygiad staff ar sail treigl.

Yn yr ail barth, *Ymchwil sy'n gweddnewid*, y prif risgiau yw methu â chynyddu'r sylfaen ymchwil a bod yn aflwyddiannus o ran cael Pwerau Dyfarnu Graddau Ymchwil. Mae'r risgiau hyn yn cael eu lliniaru trwy sicrhau bod polisiau a phrosesau Adnoddau Dynol yn cefnogi ac yn annog ein staff academaidd i fod yn weithgar o ran ymchwil a chyflwyno ymchwil yn y rhaglenni a addysgir, cadw'r metrics yn gyfredol er mwyn creu cais cryf am adolygiad gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA), ac adeiladu ar gyflwyniad Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021 fel y bydd mwy o feysydd pwnc yn barod i'w cyflwyno ar gyfer Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2028.


Yn y trydydd parth, *Ymgysylltu sy'n galluogi*, y risgiau sy'n cael eu monitro yw ein partneriaethau academaidd a'n proffil menter. Mae'r mesurau lliniaru yn cynnwys prosesau cadarn i oruchwylio partneriaid, gyda gwelededd clir i'r uwch reolwyr, rheoli cynlluniau ehangu yn cynnwys diwydrwydd dyladwy a dadansoddi'r farchnad fel sylfaen i bartneriaethau rhyngwladol, a dull rhagweithiol o sicrhau partneriaethau cyfnewid gwybodaeth wedi'u cyllido â busnesau yn y rhanbarth.

Y risgiau yn y pedwerydd parth, *Strwythur sy'n cynnal*, yw costau cyflogau'n cynyddu yn uwch na'r twf mewn incwm, amgylchedd dysgu ffisegol anatyniadol yn effeithio ar recriwtio myfyrwyr a phwysau ar ein cynaliadwyedd ariannol. Mae'r risgiau hyn yn cael eu lliniaru trwy adolygiadau systemataidd ar draws yr holl feysydd academiaidd a phroffesiynol, gan sicrhau bod capasiti sefydliadol priodol i ddarparu portffolio wedi'i arallgyfeirio; Campws 2025 ac ailflaenoriaethu prosiectau buddsoddiad cyfalaf yn barhaus yn unol ag anghenion myfyrwyr, yn cynnwys yr isadeiledd digidol; monitro'r perfformiad ariannol yn fanwl yn ystod y flwyddyn fel bod y gwariant disgresiynol yn cyfateb i gyfleoedd cynhyrchu referniw.

Mae categori ychwanegol yn y Gofrestr Risg yn ystyried barn cyrff rheoleiddio a rhanddeiliaid ehangach ynghylch y Brifysgol. Mae'r risgiau'n cael eu diffinio fel perthnasoedd yn chwalo neu golli ymddiriedaeth, a'r mesurau lliniaru yw darparu sicrwydd angenrheidiol a defnyddio sianelau cyfathrebu anffurfiol yn ogystal â rhai ffurfiol. Mae baich cydymffurfio arwyddocaol ar y sector Addysg Uwch yn gyffredinol, ond y prif yrrwr i'r Brifysgol wrth reoli'r baich hwn yw parhau i wella arferion a phrosesau yn barhaus a dangos atebolrwydd a thryloywder.

Tu hwnt i'n perthynas ni â chyrff rheoleiddio a chyrff statudol, mae ymgysylltu â rhanddeiliaid ehangach yn hanfodol i'r Brifysgol. Yng nghyd-destun ein rôl yn y gymuned ystyriwyd sut y gallai ein haddysg, ein hymchwil a'n hymgysylltu fod yn sylfaen i adferiad a chydnerthedd yn dilyn y pandemig. Dangosir hyn isod, gan fapio'r hyn sydd gan y Brifysgol i'w gynnig yn glir.

Rôl Prifysgol Glyndŵr Wrecsam yn y rhanbarth ar ôl y pandemig



TUEDDIADAU'R SECTOR

Yn ystod blwyddyn yr adroddiad bu'r Bwrdd Llywodraethwyr a Thîm Gweithredol yr Is-Ganghellor yn ystyried datblygiadau a thueddiadau eang yn y sector Addysg Uwch, a'u heffaith ar y Brifysgol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Canllawiau'r llywodraeth mewn ymateb i bandemig Covid-19 yn esblygu, gyda chyfeiriadau penodol at leoliadau addysg, yn ogystal â'r gweithle'n fwy cyffredinol;
- Cynnydd yn amlder cyfarfodydd corff ymbarel y sector yn 'rhithiol', wrth i ddulliau cydlynus ac ar y cyd gael eu datblygu i ddiogelu profiad y myfyrwyr yng nghyd-destun heriau Covid-19;
- Cyhoeddi *Bil Drafft Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)* sy'n cynnig sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd, i ddod yn lle CCAUC fel rheoleiddiwr y sector erbyn 2023;
- Lansio'r Gronfa Adfer a Buddsoddi yn Addysg Uwch yng Nghymru gwerth £27m, gyda dyraniadau arwyddocaol i'r Brifysgol i gynnal rhaglenni academaidd, yr isadeiledd digidol a gwasanaethau myfyrwyr;
- Cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn a ryddhawyd gan Lywodraeth Cymru trwy CCAUC, megis cynllun £40m i liniaru caledi a ddiodeffwyd gan fyfyrwyr, a oedd y fenter fwyaf hael yn Addysg Uwch ar draws y Deyrnas Unedig gyfan;
- Cyhoeddi cynllun cyfalaf ar gyfer datgarboneiddio a digideiddio gyda'r Brifysgol yn elwa £1.6m o hyn, gan ganiatáu iddi wneud y buddsoddi perthnasol yn gynharach, a fydd yn cael effaith am nifer o flynyddoedd;
- Rhagfynegiadau cyllideb gyfalaf a refeniw ar gyfer Addysg Uwch yn cynyddu'r raddol, oherwydd gweithredu canfyddiadau'r 'Adolygiad Diamond' yng Nghymru;
- Ansicrwydd yn parhau o ran cynlluniau newydd a allai ddod yn lle strwythurau Undeb Ewropeaidd blaenorol yn dilyn Brexit, megis y Gronfa Ffyniant Gyffredin;
- Effeithiau potensial polisiâu ar y gweill a ddatblygwyd gan y rheoleiddiwr Addysg Uwch yn Lloegr (Office for Students) ar sector Addysg Uwch Cymru ac ar fyfyrwyr o Loegr sydd am astudio yng Nghymru ac i'r gwrthwyneb, oherwydd y posibilrwydd o ffoedd dysgu gwahanol a rheoleiddio ansawdd a safonau a gofynion mynediad yn mynd ar drywyddau gwahanol;
- Newidiadau mawr mewn patrymau recriwtio myfyrwyr o ran myfyrwyr sy'n byw yn y Deyrnas Unedig, gan greu amgylchedd mwy cystadleuol;
- Colli cyfran sylweddol o fyfyrwyr Undeb Ewropeaidd o ganlyniad i Brexit, ac amodau heriol i fyfyrwyr rhyngwladol o wledydd ac eithrio'r Undeb Ewropeaidd oherwydd cyfyngiadau Covid-19;
- Canlyniadau etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai, gyda phenodi Gweinidog Addysg newydd ac Aelodau Senedd newydd yn cynrychioli etholaethau yn ein rhanbarth, ochr yn ochr ag Aelodau Senedd wedi'u haillethol.

Cafodd y tueddiadau a'r datblygiadau hyn eu monitro gan y Brifysgol a'u hystyried fel rhan o ymateb strategol. Bu uwch gynrychiolwyr y Brifysgol yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd perthnasol y sector, lle roedd cyfleoedd i ddylanwadau ar y trafodaethau.

ADRODDIADAU PWYLLGORAU

Y Pwyllgor Archwilio

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn gorff cynghori a sefydlwyd gan y Bwrdd Llywodraethwyr i'w gynghori a rhoi trosolwg o effeithiolrwydd trefniadau rheoli risgiau, rheolaeth ariannol a llywodraethu'r Brifysgol, y trefniadau i hybu'r economi, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd a'r trefniadau archwilio mewnol ac archwilio allanol.

Aelodaeth a Phresenoldeb 2020/21

Aelodau	Cyfradd presenoldeb (4 cyfarfod)
Paul McGrady (Cadeirydd)	100%
Jim Barclay (<i>tan 31/3/21</i>)	100% (3 cyfarfod)
Mike Harvey (<i>aelod cyfetholedig</i>)	100%
Trevor Henderson (<i>aelod cyfetholedig</i>)	100%
Tim Mitchell (<i>aelod cyfetholedig</i>)	100%
David Subacchi	100%

Nid oes unrhyw aelodau'r Pwyllgor Archwilio sydd hefyd yn aelodau'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid

Crynodeb y busnes a drafodwyd 2020/21

Mae'r Pwyllgor yn pennu cynllun gwaith iddo'i hun yn flynyddol, yn ychwanegol at y cyfrifoldebau a nodir yn ei gylich gwaith. Yn ystod 2020/21 canolbwyntiodd y pwyllgor ar bedwar maes allweddol a chyflwynodd adroddiad i'r Bwrdd llawn yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2021 ynghylch sut yr aeth i'r afael â'r meysydd hyn.

- Monitro effaith a rheoli'r sefyllfa coronafeirws trwy archwiliadau mewnol penodol a ychwanegwyd at gynllun archwilio 2020/21: fframwaith cynllunio parhad busnes; cynllunio a monitro ariannol Covid-19 a gweithredu'r cynllun cadw swyddi coronafeirws.
- Monitro bod y brifysgol yn cydymffurfio â chyfamodau benthyciadau fel rhan o'r gofrestr risgiau, a adolygwyd ym mhob cyfarfod.
- Cynnal trosolwg y risgiau'n gysylltiedig â'r Strategaeth Ystadau ac Amgylchedd Dysgu (Campws 2025).
- Parhau i wahodd swyddogion risg arweiniol i ddod i gyfarfodydd y pwyllgor i drafod eu meysydd risg, gyda ffocws ar fusnes academiaidd craidd y brifysgol.

Gwaith arall

- Yng nghyswllt archwilio mewnol, gwnaeth y Pwyllgor gymeradwyo'r cynllun archwilio mewnol am y flwyddyn a derbyn adroddiadau naw archwiliad a oedd yn cynnwys, yn ychwanegol at y rhai'n gysylltiedig â'r sefyllfa coronafeirws: y fframwaith rheoli risgiau; y fframwaith ar gyfer mabwysiadu Safonau'r Gymraeg; y fframwaith ar gyfer llais y myfyrwyr; y fframwaith ar gyfer rheoli dyledion myfyrwyr; ansawdd data – dull tryloyw o ran fframwaith costau (TRAC); ac adroddiadau dilynol ynghylch argymhellion blaenorol. Roedd yr holl adroddiadau'n rhoi barn sicrwydd sylweddol neu resymol. Bu'r Pwyllgor yn monitro rhoi'r holl weithredoedd rheoli yn deillio o'r adroddiadau archwilio mewnol ar waith.
- Adolygwyd archwiliad datganiadau ariannol drafft 2019/20 gan ganolbwyntio'n benodol ar farn yr archwilydd allanol, datganiad cyfrifoldebau aelodau, datganiad rheolaeth fewnol a'r datganiad llywodraethu corfforaethol. Cymeradwyodd y Pwyllgor y cynllun archwilio a'r ffioedd archwilio ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol hyd at 31 Gorffennaf 2021.
- Gwnaeth y Pwyllgor ystyried amrediad o adroddiadau sicrwydd eraill, yn cynnwys: y cynnydd o ran gweithredu'r cynllun gweithredu Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi, llywodraethu gwybodaeth, cydymffurfio â lefel ffioedd a gofynion cyffredinol y Cynllun Ffioedd a Mynediad, caethwasiaeth fodern, effeithlonrwyddau caffael blynyddol, gwerth am arian, chwythu'r chwiban, hysbysu am ddigwyddiadau difrifol a chydymffurfio â Chod Ymarfer Archwilio CCAUC.
- Adolygodd y Pwyllgor berfformiad yr archwilwyr mewnol ac allanol yn ogystal â'i effeithiolrwydd ei hun ac, yn olaf, adolygodd ei arferion yn erbyn Cod Ymarfer Pwyllgor Archwilio Addysg Uwch y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion (2020) a chytunwyd mabwysiadu'r Cod yn llawn.

Y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid

Mae'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid yn gyfrifol am fonitro materion strategol, cynghori'r Bwrdd Llywodraethwyr ynghylch cyfeiriad strategol y Brifysgol, cadw trosolwg ar faterion ariannol y Brifysgol ar ran y Bwrdd Llywodraethwyr a rhoi ystyriaeth ddechreuol i a chynghori ar unrhyw fusnes arall y Bwrdd sy'n arbennig o bwysig neu gymhleth nad ydynt yn dod o dan gylch gorchwyl pwyllgorau eraill y Bwrdd.

Aelodaeth a Phresenoldeb 2020/21

Aelodau	Cyfradd presenoldeb (5 cyfarfod)
Judy Owen (Cadeirydd)	100%
Paul Barlow	100%
Jim Barclay (<i>ymunodd 1 Ebrill 2021</i>)	100% (2 gyfarfod)
Dr Jayne Mitchell ⁶	100% (2 gyfarfod)
Yr Athro Maria Hinfelaar	100%
Maxine Penlington	80%

Nid oes unrhyw aelodau'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid sydd hefyd yn aelodau'r Pwyllgor Archwilio

Crynodeb y busnes a drafodwyd 2020/21

Mae'r Pwyllgor yn pennu cynllun gwaith iddo'i hun yn flynyddol, yn ychwanegol at y cyfrifoldebau a nodir yn ei gylch gwaith, Yn ystod 2020/21 canolbwyntiodd y pwyllgor ar bedwar maes allweddol a chyflwynodd adroddiad i'r Bwrdd llawn yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2021 ynghylch sut yr aeth i'r afael â'r meysydd hyn.

- Parhau i fonitro rheoli lefelau incwm a gwariant yn ofalus i gael sicrwydd ynghylch cynaliadwyedd parhaus y Brifysgol a chydymffurfio â chyfmodau'r banc.
- Monitro'r opsiynau i ailgyllido cyfleuster benthyciad y Brifysgol.
- Parhau i graffu ar gynigion ac achosion busnes yn gysylltiedig â'r Strategaeth Ystadau ac Amgylchedd Dysgu (Campws 2025) i'w hargymell i'r Bwrdd llawn.
- Monitro'r amgylchedd allanol a goblygiadau hynny ar gynlluniau strategol y Brifysgol, yn enwedig yng nghyswllt y pandemig coronafeirws.
- Parhau i fonitro a chraffu recriwtio a chadw myfyrwyr yn ofalus o ran yr effaith ar sefyllfa ariannol y Brifysgol a fforddiadwyedd cynlluniau strategol ac uchelgeisiau'r brifysgol.

Gwaith arall

- Yn unol â'i gylch gwaith ariannol gwnaeth y Pwyllgor adolygu datganiadau ariannol 2019/20 archwiliedig yr Undeb Myfyrwyr; craffu ar a chynghori'r Bwrdd ynghylch datganiadau ariannol 2019/20 archwiliedig y Bwrdd; cymeradwyo ffioedd myfyrwyr; nodi'r holl gontractau dros £25k a ddyfarnwyd; cymeradwyo polisiâu cyfrifyddu'r Brifysgol; cytuno cynnwys cynnydd yn swm grant bloc blynyddol yr Undeb Myfyrwyr yn y gyllideb; adolygu'r sefyllfa ddyledion; monitro'r cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru a chraffu ar gynigion a rhagfynegiadau cyllideb i'w cymeradwyo i'r Bwrdd Llywodraethwyr.
- Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad yswiriant blynyddol hefyd, nodi amrywiadau i'r Cynllun Ffioedd a Mynediad 2021/22; adolygu adroddiadau ar adolygiad interim y Weledigaeth a Strategaeth 2025; craffu ar yr achos busnes amlinellol ar gyfer y prosiect Canolfan Peirianeg, Menter a Opteg dan Fargen Twf Gogledd Cymru; ac ystyried adroddiad ar y cynnyd a'r strategaethau i ddarparu credydau rhan amser.
- Cafodd perfformiad is-gwmnïau'r brifysgol ei fonitro'n ofalus hefyd.

⁶ Caniataodd y Bwrdd gyfnod byr o absenoldeb i Dr Jayne Mitchell am resymau personol a oedd yn cwmpasu tri chyfarfod. Roedd Dr Mitchell yn bresennol yn y ddau gyfarfod y disgwyliwyd iddi eu mynychu.

Y Pwyllgor Adnoddau Dynol

Mae'r Pwyllgor Adnoddau Dynol wedi'i awdurdodi gan y Bwrdd Llywodraethwyr ym mhob peth i gydnabod mai y staff, academiaidd a phroffesiynol, yw adnodd allweddol y Brifysgol ac ymdrechu i sicrhau bod yr amgylchedd gwaith a'r polisïau ac arferion y Brifysgol yn annog perfformiad effeithiol a gwireddu potensial llawn yr holl staff.

Aelodaeth a Phresenoldeb 2020/21

Aelodau	Cyfradd presenoldeb (4 cyfarfod)
Yr Athro Sandra Jowett (Cadeirydd)	100%
Paul Barlow	100%
Maxine Penlington	100%
Yr Athro Maria Hinfelaar	75%
David Subacchi	100%

Crynodeb y busnes a drafodwyd 2020-21

Mae'r Pwyllgor yn pennu cynllun gwaith iddo'i hun yn flynyddol, yn ychwanegol at y cyfrifoldebau a nodir yn ei gylch gwaith, Yn ystod 2020/21 canolbwyntiodd y pwyllgor ar dri maes allweddol a chyflwynodd adroddiad i'r Bwrdd llawn yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2021 ynghylch sut yr aeth i'r afael â'r meysydd hyn.

- Monitro materion iechyd a llesiant staff yn deillio o'r pandemig coronafeirws a gweithredoedd y rheolwyr i ymateb i faterion yn deillio o hynny.
- Monitro'r canlyniadau'n deillio o'r arolwg ymgysylltu â staff 2020 a gweithredoedd y rheolwyr i ymateb iddyn nhw.
- Parhau i sicrhau cydymffurfio â dyletswydd Atal a Safonau'r Gymraeg a chynnal y ffocws ar faterion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Gwaith arall

- Dan gylch gwaith iechyd ac Amgylchedd y Pwyllgor derbyniwyd adroddiadau ymhob cyfarfod yn adrodd ynghylch set o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol iechyd a diogelwch. Cymeradwywyd y datganiad polisi iechyd a diogelwch a'r datganiad polisi cynaliadwyedd, a chanolbwyntiwyd ar fater adolygiadau tân trydydd parti a arweiniodd at gomisyndu adolygiad annibynnol diogelwch tân yn llety preswyl i fyfyrwyr y Brifysgol ac nid oedd unrhyw faterion sylweddol.
- O ran y staff bu'r Pwyllgor yn craffu ar amrediad o adroddiadau yn cynnwys adroddiadau ar: absenoldeb salwch blynyddol; y proffil staff; mentrau datblygiad staff; achosion disgyblu staff, cwynion cyflogaeth ac urddas yn y gwaith; gweithredoedd i gefnogi cynllunio olyniaeth ar draws y Brifysgol; y cynnydd yn erbyn y gweithredoedd yn gysylltiedig â strategaeth iechyd a llesiant meddwl y Brifysgol ar gyfer staff a myfyrwyr; diweddariadau ynghylch y gweithgareddau cynlluniedig yn deillio o Strategaeth Pobl y Brifysgol; cyflwyno arolwg peilot 360 gradd ar gyfer Cadeirydd y Bwrdd; cyflwyno arolwg 360 gradd ar gyfer Tîm Gweithredol yr Is-Ganghellor a diweddariadau ar negodiadau cynnydd cyflog yr UCEA.
- Gwnaeth y Pwyllgor fonitro'r gwaith arwyddocaol ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant er mwyn gweithredu cynllun cydraddoldeb strategol y Brifysgol, sy'n cael ei fwrw ymlaen yn weithredol gan grŵp gweithredu cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi'i gefnogi gan is-grwpiau sy'n canolbwyntio ar nodweddion gwarchoddedig penodol. Mae'r Brifysgol wedi ymrwmo i nifer o siarteri i ddangos ymrwymiad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, er enghraifft, Ymwybyddiaeth o Glefydau/Cyflyrau Prin, Cymorth i Ddiodefwrwr a Throseddau Casineb, ac mae'n gweithio tuag at ofynion y Siarter Cydraddoldeb Hil. Mae gwybodaeth fanwl ar gael yn [adroddiad blynyddol Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant](#) y brifysgol.

- Hefyd gwnaeth y Pwyllgor gymeradwyo Polisi Cyflog Dechreuol, Polisi Disgresiynol y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, polisi a gweithdrefn Datgelu er Budd Cyhoeddus (Chwythu'r Chwiban) ac yn dilyn adolygiad arferol argymhellwyd gweithdrefnau disgyblu a chwynion cyflogaeth deiliaid uwch swyddi wedi'i diweddaru i'r Bwrdd eu cymeradwyo.

Y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu

Mae'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu yn gyfrifol am roi trosolwg i'r Bwrdd Llywodraethwyr ynghylch y trefniadau llywodraethu corfforaethol i sicrhau bod y Brifysgol yn dilyn arferion gorau. Mae'n gyfrifol am adnabod ac argymhell penodi Llywodraethwyr newydd i'r Bwrdd, am enwebu Llywodraethwyr ac aelodau cyfetholedig i bwyllgorau'r Bwrdd, cynghori ar benodi'r Canghellor ac adnabod ac argymhell unigolion i dderbyn Cymrodoriaethau Anrhydeddus y Brifysgol i'r Bwrdd.

Aelodaeth a Phresenoldeb 2020/21

Aelodau	Cyfradd presenoldeb (5 cyfarfod)
Maxine Penlington (Cadeirydd)	100%
Ebony Banks	80%
Colin Heron	100%
Claire Homard	100%
Yr Athro Maria Hinfelaar	100%
Celia Jenkins	80%
Bruce Roberts (<i>aelod cyfetholedig</i>)	80%

Crynodeb y busnes a drafodwyd 2020/21

Mae'r Pwyllgor yn pennu cynllun gwaith iddo'i hun yn flynyddol, yn ychwanegol at y cyfrifoldebau a nodir yn ei gylch gwaith, Yn ystod 2020/21 canolbwyntiodd y pwyllgor ar bedwar maes allweddol a chyflwynodd adroddiad i'r Bwrdd llawn yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2021 ynghylch sut yr aeth i'r afael â'r meysydd hyn.

- Adolygu Cod Llywodraethu Addysg Uwch diwygiedig y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion ac asesu'r goblygiadau o ran arferion llywodraethu'r Bwrdd.
- Monitro cynllun gweithredu'r Brifysgol yn dilyn Adolygiad Llywodraethiant Prifysgolion yng Nghymru (adolygiad Camm).
- Cynllunio olyniaeth i lywodraethwyr a fydd yn dod i ddiwedd eu cyfnod yn y swydd yn 2022 a 2023, a dechrau proses recriwtio.

Gwaith arall

- Yn deillio o'r adolygiad arferion yn erbyn Cod Llywodraethu Addysg Uwch Diwygiedig y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion a'r gwaith parhaus i weithredu ymrwymadau gweithredu'r adolygiad Camm, adolygodd y Pwyllgor amrediad o ddogfennau a gymeradwywyd yn ddiweddarach gan y Bwrdd. Roedd y rhain yn cynnwys datganiad prif gyfrifoldebau'r Bwrdd, cod ymarfer ar reoli gwrthdrawiadau buddiannau, datganiad ar feincnodi a datganiad cymhwysedd i ymddiriedolwyr.
- Yn unol â fframwaith cynllunio olyniaeth y Bwrdd adolygodd y Pwyllgor gofynion sgiliau a phrofiad y Bwrdd a'u diweddarau ar gyfer y dyfodol a goruchwyllo'r broses recriwtio i benodi'r tri llywodraethwr annibynnol newydd ac aelodau cyfetholedig y Pwyllgorau Archwilio ac Adnoddau Dynol.
- Nod y broses recriwtio oedd denu ymgeiswyr o gefndiroedd amrywiol trwy gylchrediad eang yr hysbyseb i staff, myfyrwyr, llywodraethwyr a rhwydweithiau cydraddoldeb ac amrywiaeth. Arweiniodd y broses at geisiadau gan ddynion a merched, fodd bynnag, ni fu'n llwyddiannus yn denu ymgeiswyr addas o gefndiroedd eraill. Bwriedir gweithredu i wella amrywiaeth y Bwrdd wrth symud ymlaen, yn unol â'r ymrwymadau gweithredu Camm.
- Ar ddiwedd y flwyddyn academiaidd roedd cydbwysedd rhywedd yr aelodaeth yn 55% benywod a 45% gwrywod, ychydig yn uwch na'r cyfartaledd o 40% merched ar gyff llywodraethu sefydliadau addysg

uwch yn y Deyrnas Unedig, gan ei wneud ymhlith y 55% o gyrff llywodraethu sy'n gytbwys o ran rhywedd gyda rhwng 40% a 60% o aelodau benywaidd.⁷

- Datblygwyd proffil ar gyfer Cadeirydd y Bwrdd a'i gymeradwyo wrth baratoi ar gyfer y broses i ganfod Cadeirydd newydd yn 2022. Goruchwyliodd y Pwyllgor benodi cwmni gweithredol chwilio a dethol i gefnogi'r chwilio am Gadeirydd newydd yn ystod blwyddyn academaidd 2021/22.
- Hefyd gwnaeth y Pwyllgor oruchwylio penodi darparwydd annibynnol i gynnal adolygiadd effeithiolrwydd y Bwrdd y tro nesaf. Dechreuodd Advance HE yr adolygiad effeithiolrwydd ym mis Medi 2021 a disgwylir adroddiad ar y canlyniadau yng ngwanwyn 2022.
- Yn olaf, adolygodd y Pwyllgor gyfansoddiad yr Undeb Myfyrwyr, memorandwm cytundeb rhwng y Brifysgol a'r Undeb Myfyrwyr a'r cytundeb perthynas rhwng y ddau gorff a gwneud argymhellion i'r Bwrdd; a gwneud argymhellion i'r Bwrdd ynghylch unigolion i dderbyn Cymrodoriaethau Anrhydeddus.

⁷ Norma Jarboe OBE/https://womenscountblog.files.wordpress.com/2018/11/womenscount-report-2018_web-version_new-final.pdf/2018

Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Llywodraeth sefydlu Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol i ystyried a phenderfynu ar gydnabyddiaeth ariannol yr Is-Ganghellor a deiliaid uwch swyddi fel y diffinnir yn yr Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu ac y cytunwyd gan y Bwrdd. Yn ychwanegol at gydnabyddiaeth ariannol mae cylch gwaith yr Pwyllgor yn cynnwys ystyried trefniadau diswyddo'r Is-Ganghellor a'r holl ddeiliaid uwch swyddi a'r rhai sy'n ennill cyflog sylfaenol o fwy na £100k y flwyddyn.

Mae'r Pwyllgor yn adolygu'r wybodaeth feicnodi a'r dystiolaeth berthnasol ynghylch perfformiad deiliaid uwch swyddi yn erbyn amcanion cytunedig, yn ogystal â'r lluosogydd rhwng y deiliaid uwch swyddi a gweddill y gweithlu. Mae'n rhaid i'r Pwyllgor ystyried budd y cyhoedd a diogelu cronfeydd arian cyhoeddus ochr yn ochr â buddiannau'r Brifysgol wrth ystyried yr holl ffurfiau tâl, gwobrwyo neu ddiswyddo deiliaid uwch swyddi.

Aelodaeth a Phresenoldeb 2020/21

Aelodau	Cyfradd presenoldeb (2 gyfarfod)
Yr Athro Sandra Jowett (Cadeirydd)	100%
Paul Barlow	100%
David Subacchi	100%
Maxine Penlington	100%
Judy Owen	100%

Crynodeb y busnes a drafodwyd 2020/21

Ystyriodd y Pwyllgor y Datganiad Polisi Tâl Blynyddol a'i argymhell i'r Bwrdd i'w gymeradwyo a'i gyhoeddi. Mae'r datganiad polisi wedi'i seilio ar ddogfen Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus *Transparency of Senior Pay in the Devolved Public Sector* (2016) ac mae'r datganiad hefyd yn cyflawni gofynion y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion i gyhoeddi datganiad blynyddol ynghylch cydnabyddiaeth ariannol uwch staff.

Cynhaliwyd adolygiad o ddisgrifiad swydd y Clerc hefyd, wedi'i gymharu yn erbyn y disgrifiad swydd enghreifftiol a ddatblygwyd yn deillio o Adolygiad Llywodraethiant Prifysgolion yng Nghymru (Camm) 2019. Cymeradwyodd y Pwyllgor ddisgrifiad swydd wedi'i ddiweddarau yn cyd-fynd â'r model.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried perfformiad a chydabyddiaeth ariannol yr Is-Ganghellor a'r Dirprwy Is-Ganghellor. Darperir adroddiad ar y broses a chyfiawnhad cydnabyddiaeth ariannol yr Is-Ganghellor yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad dan ei '*bolisi ar weithgareddau allanol a chadw taliadau cysylltiedig i ddeiliaid uwch swyddi*' hefyd. Mae'r polisi hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ddeiliaid uwch swyddi ofyn am ganiatâd ar gyfer penodiadau blynyddol i sicrhau bod gweithgareddau gwaith allanol yn parhau'n briodol yn wyneb unrhyw newid mewn amgylchiadau i'r unigolyn neu'r Brifysgol a gofyn am gymeradwyaeth i gadw'r taliadau cysylltiedig. Penodwyd yr Is-Ganghellor i Gorff Adolygu Tâl Annibynnol Cymru tan fis Mawrth 2024, sy'n benodiad cyhoeddus gan Weinidog Addysg Cymru. Penodwyd y Dirprwy Is-Ganghellor yn Gadeirydd Bwrdd Alpha Housing Association (Bromborough) am dair blynedd.

Pwyllgor Gweithredol yr Is-Ganghellor

Mae Pwyllgor Gweithredol yr Is-Ganghellor yn mabwysiadu egwyddorion 'cyfrifoldeb ar y cyd' trwy gymryd perchnogaeth y nodau ac amcanion corfforaethol a phenderfyniadau'r Bwrdd Llywodraethwyr, y Bwrdd Academaidd a Bwrdd yr Is-Ganghellor ac yn gweithredu fframwaith strategol y Brifysgol sy'n gweithio tuag at gyflawni gweledigaeth a chenhadaeth y Brifysgol. Mae ei gyloch gwaith yn cynnwys iechyd ariannol, rheoli adnoddau, mentrau strategol, cynllunio gweithredu, partneriaethau ac effaith allanol a rheoli risgiau. Mae aelodaeth y Grŵp yn cynnwys yr Uwch Reolwyr hynny sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Is-Ganghellor.

Aelodaeth a Phresenoldeb 2020/21

Aelodau	Cyfradd presenoldeb (16 cyfarfod)
Yr Athro Maria Hinfelaar (Cadeirydd)	100%
Yr Athro Claire Taylor	94%
Yr Athro Richard Day	88%
Dr Aulay Mackenzie	100%
David Elcock	88%
Peter Gibbs	88%
Lynda Powell	100%

Y Bwrdd Llywodraethwyr

Mae'r Is-Ganghellor yn aelod o'r Bwrdd Llywodraethwyr. Nid yw aelodau eraill Tîm Gweithredol yr Is-Ganghellor yn aelodau ond maen nhw'n mynychu cyfarfodydd y Bwrdd a'i bwyllgorau i gyflwyno adroddiadau a darparu cyngor perthnasol i'w meysydd cyfrifoldeb. Mae'r pwyllgorau'n cynnwys y Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid, y Pwyllgor Adnoddau Dynol a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol. Mae disgrifiad cymeradwy o swyddogaeth swyddogion gweithredol yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau yn bodoli.

Mae'r Is-Ganghellor yn mynychu Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol y Bwrdd i gyflwyno adroddiadau ar berfformiaid deiliaid uwch swyddi sy'n adrodd yn uniongyrchol iddi yn unig, ond nid yw'n aelod o'r pwyllgor.

Crynodeb y busnes a drafodwyd 2020/21

Derbyniwyd adroddiadau diweddarau rheolaidd gan aelodau'r Tîm Gweithredol sy'n cwmpasu datblygiad academaidd a gweithgareddau cenhadaeth ddinesig, partneriaethau a thwf rhyngwladol, rheolaeth ariannol, adnoddau staffio a materion rheoli gweithredol ochr yn ochr â rhannu gwybodaeth ymgysylltu â'r sector a chyfrannu i ymgynghoriadau'r sector. Roedd y prif ffocws yn ystod y flwyddyn yn canolbwyntio ar y meysydd strategol a restrir isod.

- Adolygu Gweledigaeth a Chenhadaeth y Brifysgol.
- Trafodaethau strategol thematig ynghylch:
 - cynllunio adnoddau
 - ymddygiad myfyrwyr a dulliau addysgu a dysgu
 - datblygiadau'r sector a rhanddeiliaid
 - effaith tymor hir Covid-19
 - aildychmygu'r gweithlu.
- Rhagolygon ariannol 2021/22, cyllidebu a rhagfynegiadau ariannol am y flwyddyn.
- Cyfleoedd buddsoddi mewnol i wella profiad myfyrwyr.
- Cynigion ailstrwythuro i wella effeithiolrwydd a sicrhau arbedion effeithlonrwydd.
- Partneriaethau strategol Addysg Uwch ac Addysg Bellach.
- Partneriaethau strategol a rhyngwladol newydd.

Sefydlwyd Grŵp Rheoli Aur ar ddechrau'r pandemig Covid-19 fel mecanwaith ychwanegol eithriadol i ymdrin ag effaith y pandemig. Gwahoddwyd Clerc y Bwrdd Llywodraethwyr i gyfarfodydd y grŵp hwn.

Y Bwrdd Academaidd

Mae'r Bwrdd Academaidd yn gyfrifol am faterion cyffredinol sy'n ymwneud ag ymchwil, ysgoloriaethau, addysgu a chysiau yn y Brifysgol, yn cynnwys y meini prawf derbyn myfyrwyr; penodi a diswyddo arholwyr mewnol ac allanol; polisïau a gweithdrefnau asesu ac arholi perfformiad academaidd myfyrwyr; cynnwys y cwricwlwm; safonau academaidd a dilysu ac adolygu cyrsiau; y gweithdrefnau ar gyfer dyfarnu cymwysterau a theitlau academaidd anrhydeddus; a'r gweithdrefnau gwahardd myfyrwyr am resymau academaidd. Mae'r cyfrifoldebau hyn yn ddarostyngedig i ofynion y cyrff dilysu ac achredu. Mae'r Bwrdd Academaidd hefyd yn ystyried datblygiad gweithgareddau academaidd y Brifysgol a'r adnoddau sydd eu hangen i'w cefnogi ac am gynghori'r Is-Ganghellor a'r Bwrdd Llywodraethwyr yn unol â hynny.

Aelodaeth a Phresenoldeb 2020/21

Aelodau	Cyfradd presenoldeb	Aelodau	Cyfradd presenoldeb
Yr Athro Maria Hinfelaar (Cadeirydd)	100%	Yr Athro Claire Taylor	100%
Dr Aulay Mackenzie	100%	Yr Athro Richard Day	100%
Yr Athro Alec Shepley	80%	Dr Simon Stewart	100%
John Worden	100%	Dr Neil Pickles	80%
Colin Heron	100%	Dr Sue Liggett	80%
Dr Sue Horder	100%	Madi Ruby	40%
Dr Caroline Hughes	80%	Yr Athro Mandy Robbins	80%
Lynda Powell	60%	James Dawson	100%
Helena Eaton	100%	Dr Ian Ratcliffe	100%
Yr Athro Iolo Madoc-Jones	80%	Cerys Alonso	80%
Dr Karen Heald	100%	Neil Pritchard/Jess Archilleos	80%
Dr Joanne Pike	80%	Andy Phillips	80%
Ebony Banks	60%	Chloe Williams	80%

Crynodeb y busnes a drafodwyd 2020/21

Yn ystod y flwyddyn mae'r Bwrdd Academaidd wedi cyflawni busnes yn unol â'i gyfrifoldebau fel a ganlyn:

- Diwygiadau, diweddariadau ac ychwanegiadau i reoliadau academaidd ar draws yr holl feysydd darpariaeth.
- Derbyn ac adolygu (lle bo'n ofynnol) amrediad eang o adroddiadau ar faterion ynghylch ansawdd dysgu ac addysgu, yn cynnwys: Strategaeth Cefnogi Dysgu a Chyflawniadau Myfyrwyr y Brifysgol; adroddiadau ar integriti a chwynion academaidd; canlyniadau myfyrwyr megis canlyniadau gradd, Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr a Deilliannau Graddedigion; adroddiadau a diweddariadau CCAUC ac Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch a chynlluniau gweithredu cysylltiedig.
- Ystyried a chymeradwyo polisïau newydd neu wedi'u diweddarau sy'n ymwneud â neu'n effeithio ar ddarpariaeth academaidd, er enghraifft, Recordio Sesiynau a Gweithgareddau Addysgol; Euogfarnau Troseddol a Gwrth-aflonyddu a Bwlio.
- Ystyried a chymeradwyo ystod o ddilysu rhaglenni, ail-ddilysu, diddymu rhaglenni a rhanddirymiad rhaglenni ar draws yr holl feysydd darpariaeth.
- Derbyn adroddiadau ar amrywiaeth o faterion eraill sy'n berthnasol i fusnes academaidd y Brifysgol, yn nodweddiadol: diweddariadau a chymeradwyo materion partneriaethau academaidd; diweddariadau gan y Pwyllgor Ymchwil; a'i hysbysu am faterion yn ymwneud â mynediad a chadw myfyrwyr; ac ystyried y Cynllun Gweithredu Addysg Cyfrwng Cymraeg.

CYDNABYDDIAETH ARIANNOL YR IS-GANGHELLOR

Fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn penderfynu ar gydnabyddiaeth ariannol yr Is-Ganghellor. Isod ceir crynodeb sut mae perfformiad yr Is-Ganghellor yn cael ei fonitro a phenderfynu ar y gydnabyddiaeth ariannol. Darperir manylion y polisi tâl yn llawn yn y [Datganiad Polisi Tâl Blynyddol 2020/21](#). Mae'r datganiad polisi tâl hwn yn cyd-fynd â chyhoeddiad 'Transparency of Senior Remuneration in the Devolved Welsh Public Sector' sydd hefyd yn cyflawni gofynion Cod Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch Staff Addysg Uwch Cymdeithas Cadeiryddion Prifysgolion (2018).

Arferion llywodraethu da

O ganlyniad i adolygiad y Pwyllgor o'i arferion yn erbyn Cod Cydnabyddiaeth Uwch Staff Addysg Uwch y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion yn 2018/19 cyflwynodd y Bwrdd Llywodraethwyr *bolisi ar weithgareddau allanol a chadw taliadau cysylltiedig i ddeiliaid uwch swyddi; a chanllawiau i'r pwyllgor cydnabyddiaeth: trefniadau diswyddo a diweddarau ei bolisi cydnabyddiaeth ariannol i ddeiliaid uwch swyddi a oedd yn bodoli eisoes.*

Cynhaliodd archwilwyr mewnol y Brifysgol archwiliad o arferion y Pwyllgor yn erbyn y Cod ym mis Tachwedd 2018, yn cynnwys arsylwi cyfarfod y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a thrafodaethau â Chadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Chadeirydd y Bwrdd. Daeth yr archwiliad i'r casgliad y gellid rhoi barn sicrwydd sylweddol.

Mae gan y Pwyllgor gylch gwaith mae'n ei adolygu'n flynyddol. Nid yw'r Is-Ganghellor yn aelod o'r pwyllgor.

Monitro perfformiad

Mae cynllun Adolygiad Perfformiad a Datblygiad blynyddol ffurfiol yn bodoli ar gyfer yr holl staff, yn cynnwys yr Is-Ganghellor. Mae'r broses hon yn cynnwys tri cham. Yn gyntaf mae Cadeirydd y Bwrdd yn cynnal cyfarfod gyda'r Is-Ganghellor i adolygu amcanion y flwyddyn flaenorol a phennu amcanion ar gyfer y flwyddyn i ddod, cynhelir adolygiad perfformiad canol blwyddyn gydag adolygiad terfynol a chadarnhau'r perfformiad tuag at ddiwedd y flwyddyn academaidd. Rhennir amcanion blynyddol yr Is-Ganghellor gyda'r Bwrdd llawn fel rhan o adroddiad cydnabyddiaeth ariannol y Pwyllgor.

Mae amcanion blynyddol yr Is-Ganghellor yn canolbwyntio ar bedwar parth strategaeth Gweledigaeth a Strategaeth 2025 y Brifysgol: *addysgu sy'n ysbrydoli, ymchwil sy'n hysbysu, ymgysyllu sy'n galluogi a strwythur sy'n cynnal*. Pennir dangosyddion perfformiad allweddol trosfwaol ac mae gan bob amcan dargedau CAMPUS sy'n cyd-fynd â'r Weledigaeth a Strategaeth, a strategaethau cefnogol perthnasol. Yn ychwanegol mae amcanion personol yn cael eu pennu i'r Is-Ganghellor o ran 'rôl arweinyddiaeth' a'r 'proffil allanol', ac yn 2020/21 cynhwyswyd amcan 'adfer yn dilyn Covid' hefyd.

Mae Cadeirydd y Bwrdd yn darparu adroddiad i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ar berfformiad yr Is-Ganghellor yn erbyn yr amcanion cytunedig, yn unol â'r polisi cydnabyddiaeth ariannol deiliaid uwch swyddi.

Y Cyd-destun

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn derbyn adroddiad adborth yn flynyddol i hysbysu eu hystyriaethau ynghylch cydnabyddiaeth ariannol yr Is-Ganghellor. Mae'r adroddiad yn defnyddio data UCEA ar gyfer y flwyddyn berthnasol o ran sefydliadau ôl 92 a sefydliadau bach (gyda throsiant o rhwng £24m a £70m). Mae'r Pwyllgor hefyd yn derbyn gwybodaeth ar effaith amrediad cynnydd canrannol potensial ar gyflog yr Is-Ganghellor o gymharu â'r meincnodi.

Yn ychwanegol, mae'r Pwyllgor yn ystyried data meincnodi mewnol yn cynnwys: lluosogydd tâl cyflog yr Is-Ganghellor ac enillion canolrif yr holl staff, y cynnydd canran canolrif ar gyfer yr holl staff eraill, bylchau cyflog o ran rhywedd, ethnigrwydd ac anabled a data meincnodi arall a nodir yn fanwl yn natganiad polisi tâl blynyddol y Brifysgol.

Mae'r Brifysgol wedi talu Cyflog Byw y Sefydliad Cyflog Byw i'r holl staff ers 1 Awst 2018. Nid oes gan y Brifysgol gynllun bonws.

Llwyddiannau 2020/21

Yn ystod y flwyddyn gwnaeth yr Is-Ganghellor gynnydd rhagorol yn erbyn ei hamcanion, yn dilyn llywio'r Brifysgol trwy flwyddyn hynod heriol yn ariannol ac o ran enw da, gyda chefnogaeth uwch dîm rheoli cydlynus a gweladwy, gan cynyddu proffil y Brifysgol a'u proffil eu hunain yn allanol ar sail rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Er gwaethaf heriau'r pandemig, mae'r llwyddiannau nodedig yn cynnwys gweithredu'r Fframwaith Dysgu Gweithredol, arallgyfeirio cynyddol y sylfaen incwm, cyflawni gwarged ariannol, parhau i wneud cynnydd o ran y strategaeth Campws 2025 a chynnal ysbryd da ymhlith y staff fel y dangoswyd yng nghanlyniadau'r arolwg ymgysylltu â staff 2020.

Dywedodd yr Is-Ganghellor nad oedd yn dymuno derbyn cynnydd cyflog yn 2021 y tu hwnt i'r dyfarniad cyflog cenedlaethol a gytunwyd yn genedlaethol yn berthnasol i'r holl staff. O gofio'r amgylchedd allanol heriol croesawyd a chefnogwyd safiad yr Is-Ganghellor ar hyn gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol.

ADRODDIAD BLWYDDYN ARIANNOL 2020/21

ADOLYGIAD GWEITHREDOL AC ARIANNOL

Perfformiad ariannol cryf er gwaethaf y pandemig

Gwelodd blwyddyn ariannol 2020/21 y Brifysgol a'i his-gwmnïau yn gweithredu yng nghynnwrf pandemig byd-eang Covid-19. Yn amlwg mae hyn wedi effeithio ar yr holl weithgareddau yn y sector Addysg Uwch yng Nghymru, ar draws y Deyrnas Unedig ac, yn wir, y byd. Teimlwyd yr effaith ar Brifysgol Glyndŵr Wrecsam o ran cwtdogi'r ffrydiau incwm o weithgareddau masnachol, parhad dysgu ac addysgu ar-lein dan yr amodau perthnasol a welodd y Brifysgol yn datblygu Fframwaith Dysgu Gweithredol ac estyniad y cymorth i fyfyrwr a'r Brifysgol gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

Mae'r flwyddyn ariannol ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam wedi'i nodweddu gan reoli costau ac incwm yn gadarn i sicrhau lefel derbyniol perfformiad ariannol erbyn diwedd y flwyddyn.

Er gwaethaf yr holl darfu'n gysylltiedig â Covid llwyddodd Grŵp y Brifysgol i gynyddu ei gyfanswm incwm i £47m, cynnydd o £10m (27%) ar y flwyddyn flaenorol. Rhaid cydnabod bod peth o'r incwm hwn wedi dod ar ffurf grantiau ychwanegol gan y Llywodraeth a ddefnyddiwyd gan y Brifysgol neu eu trosglwyddo'n uniongyrchol i fyfyrwr neu sefydliadau partner, yn unol â thelerau ac amodau'r grant. Derbyniodd y Brifysgol £7.6m o gyllid un tro yn unig ar gyfer Covid-19 trwy Lywodraeth Cymru neu CCAUC, gyda £1.6m yn gyllid cyfalaf ar gyfer prosiectau digidol a datgarboneiddio. Roedd y £6m yn weddill yn cefnogi cymorth ychwanegol i fyfyrwr, caledi myfyrwr a myfyrwr wedi'u heffeithio'n niweidiol gan y pandemig felly trosglwyddwyd llawer o'r cyllid hwn i'r myfyrwr yn uniongyrchol. Yn yr un modd cyllidwyd y cymorth i'r Undeb Myfyrwr ynghyd â phrosiect cenedlaethol a arweinwyd gan Brifysgol Glyndŵr Wrecsam ar Ddysgu Digidol lle gweithredodd y Brifysgol fel y partner arweiniol ar brosiect £2.7m gyda'r rhan fwyaf o'r cyllid yn cael ei drosglwyddo'n uniongyrchol i bartneriaid.

Yn amlwg gwnaeth natur un tro yn unig y cyllid adweithiol hwn gynyddu trosiant y Brifysgol ar sail un tro yn unig, a thra bo gwariant ychwanegol cysylltiedig yn bennaf, ni chafodd effaith cwbl gyfrannol ar y gwaged net yn y flwyddyn.

Parhaodd y Tîm Gweithredol i fonitro'r holl ffrydiau incwm a'r sylfaen costau yn fanwl a chyflwyno cyfres o weithredoedd rheoli i leihau costau a chael gafael ar ffrydiau cyllid priodol a oedd ar gael, yn cynnwys y Cynllun Cadw Swyddi Coronafeirws; canlyniad hyn oedd Grŵp y Brifysgol mewn sefyllfa o warged net £1.7m.

Mae'r rownd arferol o gyfrifyddu pensiynau yn cyflwyno addasiadau i'r gwaged net unwaith eto. Eleni gwelir effaith costau Gwasanaeth Cyfredol y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cyflwyno tâl enwol (nad yw'n cael ei fynegi mewn arian parod) ar gyfer atebolrwyddau gwasanaeth cyfredol o £1,519k, cynnydd sylweddol ar y tâl y flwyddyn flaenorol.

Mae addasu gwerth llyfr Neuadd Corbishley yng nghyswllt penderfyniad y Brifysgol i beidio â chynnig llety preswyl i fyfyrwr o'r safle wedi arwain at dâl amhariad o £98k a gymrwyd yn y flwyddyn hon, er na fydd effaith peidio â defnyddio'r neuadd fel llety preswyl i fyfyrwr yn cael ei deimlo tan fis Medi 2021.

Mae'r diffyg unrhyw fynegeio'r ffi dysgu yn golygu bod rhaid i'r holl gynnydd mewn costau gael ei amsugno trwy un ai gynnydd yn nifer y myfyrwr, cynnydd mewn meysydd cynhyrchu incwm eraill neu reoli/lleihau costau. Mae'r Brifysgol wedi parhau i fabwysiadu'r strategaeth hon o arallgyfeirio incwm a gwelodd 2020/21 barhad yn nhwf y rhaglenni Addysg Trawswladol ac ar-lein Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, ynghyd â chynnydd arwyddocaol (£2.3m) yn nifer ac incwm cysylltiedig gan Fyfyrwr Rhyngwladol. Bydd y mentrau twf Ffioedd Dysgu ac arallgyfeirio yn parhau i ehangu yn 2021/22 ochr yn ochr â pharhau i ddatblygu ein rhaglen myfyrwr rhyngwladol.

Sefydliad Cynaliadwy

Mae'r paragraffau isod yn dangos sut mae'r Brifysgol wedi cynnal sefyllfa ariannol gadarnhaol yn barhaus trwy gynhyrchu gwargedau gweithredol blynyddol dros nifer o flynydoedd. Mae Strategaeth Ariannol Prifysgol Glyndŵr Wrecsam yn hybu arallgyfeirio ffrydiau incwm o ystod eang o gynigion addysgol. Mae siâp a maint y cwricwlwm yn cael ei hysbysu gan faterion academaidd ansawdd, addysgeg a dyheadau ac o'r persbectif ariannol o sicrhau galw digonol i gynhyrchu cyfraniadau incwm o ffioedd dysgu i gynnal gofynion cyffredinol sefydliad cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys gwarged digonol i sicrhau buddsoddi arian mewn adnoddau as isadeiledd addysgu a dysgu.

Adroddir yn rheolaidd ar gadw at y strategaeth ariannol, yn enwedig cynhyrchu incwm a Dangosyddion Perfformiad Allweddol eraill, i'r rheolwyr a'r llywodraeth trwy'r pecyn adroddiad gwybodaeth busnes yn fisol.


Ymhlith y Dangosyddion Perfformiad Allweddol ariannol sy'n cael eu monitro'n rheolaidd mae'r rhai sy'n canolbwyntio ar arian parod a chynaliadwyedd (gweler isod).

Mae cynlluniau a blaenoriaethau buddsoddi cyfalaf yn cael eu cyflawni trwy gynllun Campws 2025 y Brifysgol ac er bod camau nesaf y cynllun yn dibynnu'n helaeth ar dderbynion gwaredu eiddo, gwnaed cynnydd da trwy ddefnyddio grantiau allanol i wireddu cynlluniau gwella cyfalaf sy'n rhan o'r cynllun lefel uchel.

Proffil incwm a gwariant hanesyddol

	2021	2020	2019	2018
	£000's	£000's	£000's	£000's
Cyfanswm incwm academaidd	42,001	31,764	29,871	29,105
Cyfanswm incwm anacademaidd	5,051	5,216	6,094	6,326
Cyfanswm incwm gros	47,052	36,980	35,965	35,431
Cyfanswm costau tal ac eithrio costau pensiwn ychwanegol staff Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	(22,478)	(22,452)	(21,431)	(21,887)
Cyfanswm costau ddim yn gysylltiedig a thŵl	(20,625)	(12,654)	(13,248)	(12,239)
Cyfanswm gwariant ac eithrio costau pensiwn ychwanegol staff CPLIL	(43,103)	(35,106)	(34,679)	(34,126)
Gwarged/(diffyg) gweithredol ac eithrio costau pensiwn ychwanegol staff CPLIL ac amhariad asedau	3,949	1,874	1,286	1,305
Costau pensiwn CPLIL ac eithrio cyfraniadau'r cyflogwr	(2,120)	(1,519)	(1,201)	(893)
Amhariad asedau	(98)	0	(700)	0
Elw/(colled) ar waredu aseg sefydlog	(3)	424	0	0
Treth	(20)	(66)	0	0
Gwarged (diffyg) net	1,708	713	(615)	412
Dangosyddion perfformiad allweddol ariannol	2021	2020	2019	2018
Cyfanswm yr incwm	47,052	36,980	35,965	35,431
Gwarged/(diffyg)net fel % o'r cyfanswm incwm	3.6%	1.9%	(1.7%)	1.2%
Balans arian parod (£000's)	17,820	5,933	4,591	4,117
Costau staff yn cynnwys costau pensiwn staff CPLIL fel % o'r incwm gros	52.3%	64.8%	62.9%	64.3%

Lefelau Incwm




Gwnaeth cyfanswm incwm y grŵp gynyddu 27% i £47.1m yn 2020/21. Gyrwyd hyn yn bennaf gan gynydd mewn Addysg Trawswladol a myfyrwyr rhan amser (£3.2m) a chynnydd yn y cronfeydd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (£5.0m). Roedd hyn yn cynnwys grantiau gan Lywodraeth Cymru, yn cynnwys y Gronfa Adfer a Buddsoddi mewn Addysg Uwch.

Mae prif ffynhonnell refeniw'r Brifysgol yn parhau i ddod o ffioedd dysgu a chytundebau addysg a ddarparodd 67% o gyfanswm incwm y grŵp, sy'n leihad bach o'r sefyllfa yn 2019/20 (73%), a achoswyd gan effaith un o grantiau un tro yn unig Llywodraeth Cymru yn effeithio ar lefelau incwm gros.

Gwelwyd cynnydd arwyddocaol yn yr incwm o grantiau a chytundebau ymchwil hefyd, o £0.7m yn 2019/20 i £1.1m yn 2020/21, cynnydd o 68%.

Gwariant y Grŵp




Mae prif wariant Prifysgol Glyndŵr Wrecsam ar addysgu ac ymchwil, ond mae'n gwario arian hefyd ar ystod o feysydd eraill sydd o fudd i ac yn cefnogi myfyrwyr, ac yn gwella profiadau'r myfyrwyr.

Undeb Myfyrwyr Prifysgol Glyndŵr Wrecsam: Cyfrannodd y Brifysgol £371,000 yn ystod y flwyddyn i gynorthwyo gyda chynnal yr Undeb Myfyrwyr

Costau ychwanegol un tro yn unig yn 2020/21: Nod y Brifysgol yw gwario ar y lefelau sydd yn unol â'r incwm a gynhyrchwyd yn ystod y flwyddyn, fodd bynnag, yn ystod 2020/21 cafwyd costau ychwanegol un tro yn unig oherwydd cyllid Adfer a Buddsoddi mewn Addysg Uwch Llywodraeth Cymru'n cael ei drosglwyddo'n uniongyrchol i fyfyrwyr yn wynebu caledi oherwydd cyfyngiadau Covid.

Buddsoddiad Cyfalaf



Mae'r Brifysgol wedi parhau gyda'i chynlluniau Campws 2025 uchelgeisiol. Yn ystod y flwyddyn derbyniwyd grantiau allanol penodol a ddefnyddiwyd tuag at sicrhau gwell cyfleusterau digidol a gweithgareddau datgarboneiddio.

Defnyddiwyd grant cyfalaf gan CCAUC i gyllido gwelliannau campws, yn unol â strategaeth gytunedig Campws 2025. Gwelodd hyn welliannau mewnol i fannau addysgu a dysgu, yn cynnwys cwblhau adnewyddu coridor B ar y llawr gwaelod yng nghampws Plas Coch ynghyd ag uwchraddio campws Stryt y Rhaglaw. Yn ychwanegol darparwyd rhagor o gyfleusterau academiaidd ar gyfer Nyrsio Milfeddygol yng nghampws Llaneurgain, a gyllidwyd o gronfeydd wrth gefn mewnol (y Rhaglen Mân Waith Cyfalaf).

Penderfynwyd ar yr apeliadau cynllunio ynghylch dau safle galluogi y bwriadwyd eu gwaredur gan Arolygiaeth Cynllunio Cymru yn ystod y flwyddyn, gyda'r ddau safle wedi derbyn caniatâd cynllunio amlinellol bellach. Bydd hyn yn caniatâu eu gwaredu yn awr, gyda'r derbynion a gynhyrchir ar gael i'w buddsoddi yn y dyfodol. Bydd y Bwrdd yn parhau i ddefnyddio derbynion cyfalaf, ochr yn ochr â grantiau ac adnoddau mewnol, i'w hailfuddsoddi i gyflawni rhaglen Campws 2025.

Llif arian a chyllido

Roedd balansau arian parod o £17.8m ar ddiwedd y flwyddyn, a oedd yn sylweddol uwch na'r rhagfynegiadau. Cafodd y benthyciad tair blynedd dechreuol a ddefnyddiwyd i gyllido caffael Pentref Myfyrwyr Wrecsam ei ailnegodi a'i ymestyn yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol am 12 mis arall (tan Awst 2022). Mae hyn yn rhoi cyfnod hirach i ddod o hyd i gyfleuster tymor hir mwy priodol.

Datganiad y Sefyllfa Ariannol (Mantolen)

Ymddengys bod Datganiad y Sefyllfa Ariannol wedi'i gryfhau gan y ddarpariaeth pensiwn is yn awr sef £36,549k (£40,898k yn 2019/20). Roedd y ddarpariaeth yn £31,225k yn 2018/19 ond yn flaenorol bu'n £20,159k yn 2017/18, £26,130k yn 2016/17, £32,226k yn 2015/16 a £22,559 yn 2014/15. Mae amrywiadau o'r fath y tu hwnt i reolaeth y Brifysgol ac felly nid ydynt yn ddefnyddiol iawn wrth ystyried y sefyllfa ariannol gyffredinol.

Bu cynnydd yn yr asedau sefydlog wrth ychwanegu prosiectau a chwblhau gwaith adnewyddu yng nghampysau Plas Coch, Stryt y Rhaglaw a Lloneurgain.

Pensiynau

Mae'r Grŵp yn rhan o dri chynllun pensiwn, y Cynllun Pensiwn Athrawon, y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a'r Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion. Ni fu'n bosibl nodi cyfran y sefydliad yn asedau a rhwymedigaethau sail o ran y Cynllun Pensiwn Athrawon a'r Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion; fel y cyfryw cyfrifir ar gyfer y rhain fel petaent yn gynlluniau cyfraniadau diffiniedig. Fodd bynnag, dan y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (SORP) 2019 nodir rhwymedigaeth o £79k (2019/20 - £122k), yn dilyn cwblhau prisio 2019, i ystyried y diffyg yn y Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion sy'n cael ei ad-dalu ar hyn o bryd gyda chyfraniadau cytunedig ychwanegol.

Rhagolygon Ariannol

Roedd y Brifysgol yn codi ffi dysgu blynyddol o £9,000 ar fyfyrwyr israddedig amser llawn o'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd yn ystod 2020/2021, o'i gymharu gyda'r ffi o £9,250 a godwyd gan sefydliadau yn Lloegr. Darparodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol i'r Cyngor Cyllido ar gyfer 2018/2019 i wneud iawn am barhad capio'r ffi a dyrannwyd hyn i'r sefydliadau ar ffurf grant lliniaru ffioedd. Ar hyn o bryd mae capio'r ffi i £9,000 yn parhau ond dilewyd y grant lliniaru ffioedd ar gyfer 2019/20 ac ni chafodd ei ailsefydlu ar gyfer 2020/21. Comisiynwyd Adolygiad o Addysg Ôl 18 a Chyllido yn Lloegr (AUGAR) gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a chafwyd yr adroddiad yn 2019. Mae'n bosibl y bydd yr adolygiad hwn o'r system yn Lloegr yn dylanwadu ar benderfyniadau cyllido yng Nghymru yn y dyfodol.

Bydd gweithredu'r Strategaeth Ariannol yn barhaus yn gweld y Brifysgol yn parhau mewn sefyllfa ariannol iach ac yn cadw ar y trywydd cywir i gyflawni ei chenhadaeth bwysig.

Amcanion ariannol allweddol y strategaeth yw:

- 1 Sicrhau Cynaliadwyedd Ariannol tymor hir y Brifysgol.
- 2 Cynnal Solfedd.
- 3 Hyrwyddo Effeithlonrwydd a Gwerth am Arian.
- 4 Sicrhau safonau uchel Uniondeb ac Atebolrwydd ariannol.
- 5 Cynyddu gwerth ac amrywiaeth yr incwm o ffynonellau cyhoeddus, preifat a busnes.
- 6 Sicrhau bod y Risgiau Ariannol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau sy'n bodoli eisoes a chyfluoedd newydd yn cael eu cyfathrebu a'u rheoli'n briodol.
- 7 Defnyddio dull clir a chadarn o ran Cynllunio Ariannol, gwneud penderfyniadau a Dyrannu Adnoddau
- 8 Darparu dulliau talu diogel, effeithiol ac effeithlon i gwsmeriaid amrywiol

Dengys datganiadau ariannol 2020/21 fod y Brifysgol wedi defnyddio 41% o'i hincwm ar gostau staff uniongyrchol (ac eithrio pensiynau), sy'n ostyngiad ers y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn gyson gyda'r norm yn y sector a thargedau'r Strategaeth Ariannol. Mae effaith ffioedd pensiwn, y rhai arian parod ac, yn benodol, y rhai nad ydynt yn arian parod sy'n cael effaith llurgunio, yn codi lefel y Dangosydd Perfformiad Allweddol costau staffio fel canran y trosiant. Fodd bynnag, trwy barhau i sicrhau fod trosiant yn tyfu a bod y costau'n cael eu rheoli'n effeithiol, mae hyn yn darparu sylfaen ariannol gadarn i'r brifysgol, sy'n ei galluogi i gynllunio ar gyfer cynnydd yn y gwagedd cyfrifyddu ac arian parod i ddarparu cyllid ar gyfer y rhaglen ddatblygu uchelgeisiol a nodir yn y strategaeth Campws 2025.

Er mwyn cynhyrchu cyllid datblygu, ac i wrthsefyll yr ansicrwydd yn deillio o'r trefniadau ffioedd cyfredol, mae gan y Brifysgol gynlluniau uchelgeisiol i dyfu ac arallgyfeirio ei sail incwm trwy ddatblygu rhaglenni academaidd newydd a buddsoddi mewn gweithgarwch ymchwil ac arloesi, y ddau i'w darparu trwy ystad a seilwaith newydd ac wedi'i uwchraddio ochr yn ochr â rhaglen academaidd wedi'i hailfywiogi.

Yn ychwanegol, dylid cwblhau gwerthiant yr holl safleoedd nad oes eu hangen mwyach yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22 a darparu cronfeydd arwyddocaol i'w hailfuddsoddi trwy hyn er mwyn cyflawni strategaeth Campws 2025.

David Elcock
Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid

Judy Owen
Cadeirydd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid

GWYBODOAETH AM YR ELUSEN

Mae Prifysgol Glyndŵr yn elusen gofrestredig dan delerau'r Ddeddf Elusennau 2011 (elusen gofrestredig rhif 1142048).

Swyddfa Gofrestredig

Ffordd yr Wyddgrug

Wreccsam

LL11 2AW

Bancwyr

Barclays Bank plc

Liverpool Lord Street

Caerlŷr / Leicester LE87 2BB

Allied Irish Bank (UK) plc

10 Berkeley Square

Mayfair

Llundain / London W1J 6AA

Archwilydd Allanol

KPMG LLP

1 Sovereign Square

Leeds LS1 4DA

Archwilydd Mewnol

RSM LLP

Festival Way

Festival Park

Stoke-on-Trent ST1 5BB

DATGANIAD BUDD CYHOEDDUS

Cyflwyniad

Mae Prifysgol Glyndŵr yn Elusen Gofrestredig (rhif 1142048) yn unol â thelerau Deddf Elusennau 2011. Cyfeiriad cofrestredig yr elusen yw Ffordd yr Wyddgrug, Wrecsam, LL11 2AW. Mae aelodau'r Bwrdd Llywodraethwyr yn ymddiriedolwyr yr elusen ac yn rhoi ystyriaeth ddyledus i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ynghylch budd cyhoeddus.

Mae'r Brifysgol yn Gorfforaeth Addysg Uwch a dan adran 124 Deddf Diwygio Addysg 1988 mae ganddi'r pŵer i:

- ddarparu addysg uwch;
- darparu addysg bellach; a
- cynnal ymchwil a chyhoeddi'r canlyniadau

Mae gan y Brifysgol swyddogaeth benodol yn y gymdeithas sy'n cynnwys ymgysylltu'n ddwfn â'r rhanbarth a'r gymuned. Nodir swyddogaeth y Brifysgol yn glir yn ei gweledigaeth a strategaeth a'i chenhadaeth, ond yn fwy penodol yn ei holl weithredoedd.

Mae'r Brifysgol yn ceisio darparu a hybu addysg uwch yng ngogledd ddwyrain Cymru, Cymru, y Deyrnas Unedig a thramor, trwy gyfranogiad unigolion mewn rhaglenni astudio wedi'u hysbysu gan ymchwil, eu harwain gan ddiwydiant ac sy'n berthnasol yn alwedigaethol, sy'n arwain at ddyfarnu graddau neu gymwysterau priodol eraill a gwaith ymchwil cymhwysol. Nod y Brifysgol, trwy ei gweithgareddau craidd, yw datblygu pobl broffesiynol sy'n barod ar gyfer gyrfa sy'n bodloni anghenion yr economi ranbarthol, genedlaethol a rhyngwladol

Ehangu mynediad a chyfranogiad mewn Addysg Uwch

Mae ehangu mynediad yn rhan annatod o gymeriad y Brifysgol wedi'i seilio ar ymrwymiad i ddarparu mynediad i addysg uwch sy'n gynhwysol, teg a chefnogol, a chael gwared ar y rhwystrau mynediad i bobl o bob sector yn y gymdeithas, codi uchelgeisiau a chefnogi cynnal hygyrchedd i fyfyrwyr.

Mae'r Brifysgol yn y safle cyntaf yng Nghymru a Lloegr o ran cynhwysiant cymdeithasol⁸. Mae'r safle hwn yn cynnwys safleoedd nodedig eraill fel y chweched yng Nghymru a Lloegr ar gyfer derbyniadau o ardaloedd amddifadus (27.1%), y safle cyntaf yng Nghymru a Lloegr am nifer y myfyrwyr anabl (20%), y trydydd safle yng Nghymru a Lloegr o ran y myfyrwyr aeddfed (76.2%) a'r seithfed safle yng Nghymru a Lloegr o ran derbyniadau o ysgolion y wladwriaeth (97.9%). Mae Prifysgol Glyndŵr hefyd yn denu 59.9%⁹ o'i phoblogaeth myfyrwyr o ranbarth Gogledd Cymru.

Mae Cynllun Ffioedd a Mynediad y Brifysgol yn dangos ein hymrwymiad parhaus i sicrhau cyfle cyfartal a hybu addysg uwch. Mae amcanion y cynllun yn cynnwys darparu cymorth academaidd a lles i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ac ymrwymiad i wella eu profiad o addysg uwch, datblygu a hyrwyddo cymuned myfyrwyr ac academaidd gynhwysol ac ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'r Brifysgol hefyd yn ymrwymo i ddarparu profiad rhagorol i fyfyrwyr; sicrhau

⁸ Sunday Times Good University Guide League Table 2022

⁹ Source: HESA Student (FPE) 19/20 data

cyflogadwyedd graddedig; a chryfhau ymgysylltu cymunedol. Pennir targedau yn erbyn yr amcanion hyn ac maent yn cael eu monitro'n ofalus.

Mae myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig yn medru cael benthyciadau ffioedd dysgu a grantiau neu fenthyciadau i gynorthwyo gyda chostau byw. Gall myfyrwyr ag anawsterau dysgu ac anabledau, a myfyrwyr â dibynyddion, plant neu oedolion, gael cymorth ychwanegol. Cynigir bwrsariau i fyfyrwyr meddygol a gwaith cymdeithasol trwy'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymdeithasol Cymru, yn ôl eu trefn.

Mae gan y Brifysgol ei hun ystod o gynlluniau, yn cynnwys bwrsariau ac ysgoloriaethau, i gynorthwyo myfyrwyr i ddod i addysg uwch, yn cynnwys cronfa ddisgresiynol i helpu'r rhai sydd angen cymorth ariannol i barhau gyda'u hastudiaethau. Mae'r Brifysgol wedi ymrwmo i gynorthwyo pobl ifanc mewn gofal ac sy'n gadael gofal ac mae'n darparu pecynnau cymorth ariannol a chefnogaeth sy'n medru cynnwys gwarant o lety ar y campws a chyfradd ddisgownt am y flwyddyn gyntaf. Mae'r Brifysgol wedi cadarnhau ei hymrwymiad i'r [Stand Alone Pledge](#) sy'n cefnogi myfyrwyr sy'n astudio heb gymorth a chefnogaeth rhwydwaith teulu. Rydym yn rhannu gwybodaeth am ein gwaith gyda myfyrwyr sy'n torri eu cwys eu hunain yn ein gwaith allgymorth gydag ysgolion a cholegau; a'n gwaith gyda hostelau lleol ac elusennau'r digartref sy'n cynorthwyo i gyrraedd y rhai heb gymorth cartref.

Darparodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol i Brifysgolion yng Nghymru yn ystod 2020/21 i'w flaenoriaethu *'tuag at y mwyaf bregus, yn ogystal â chryfhau'r gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr.'* Roedd mwyafrif y cyllid hwn i ymdrin â chaledi uniongyrchol i fyfyrwyr yn deillio o bandemig Covid-19. Y categorïau myfyrwyr a nodwyd gan Lywodraeth Cymru i dderbyn y cymorth caledi oedd: y rhai o ardaloedd cyfranogiad isel yn y Deyrnas Unedig, y rhai o ardaloedd yn y ddau gwintel isel ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, gofalwyr, y rhai'n gadael gofal a'r rhai ag anabled; y rhai o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrif ethnig yn y Deyrnas Unedig a'r rhai nad oedd gan eu rhieni gymwysterau Addysg Uwch yn y Deyrnas Unedig. Gwnaeth 2,917 o fyfyrwyr Prifysgol Glyndŵr elwa o'r cyllid hwn.

Ymchwil

Mae Prifysgol Glyndŵr wedi ymrwmo i gynhyrchu gwaith ymchwil sy'n gweddnewid, gyda ffocws sy'n hysbysu ein haddysgu ac yn cefnogi gweithredoedd sefydliadau rhanbarthol a byd-eang. Mae'r Brifysgol wedi ymrwmo i wneud cyfraniad economaidd, cymdeithasol a diwylliannol cadarnhaol i'r rhanbarth – nod llawer o'r gwaith ymchwil a gyllidir yw bod o fudd i'r cyhoedd. Yn ystod 2020/2021 mae ymchwilwyr y Brifysgol wedi derbyn cyllid allanol gan sefydliadau fel: Cadwyn Clwyd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Ddinbych, Y Loteri Fawr, y Sefydliad Astudiaethau Alcohol, Empower ac ymgynghoreiaeth Figure 8. Roedd llawer o'r ymchwil yn deillio o'r cyllid hwn yn canolbwyntio ar iechyd a llesiant a datblygu polisi cyhoeddus yn y rhanbarth. Mae'r Brifysgol wrth graidd y gymuned fusnes yng Ngogledd Cymru hefyd, gan ddarparu gwasanaethau i ddiwydiant a masnach trwy Bartneriaethau Cyfnewid Gwybodaeth, rhaglenni ymgynghoreiaeth a chymorth entrepreneuriaeth.

Ein lle yn y gymuned

Mae rhan Gweledigaeth a Strategaeth y Brifysgol sy'n ymwneud ag ymgysylltu yn disgrifio ein nod o gynnwys y gymuned gyfan ac yn cydnabod pwysigrwydd ein partneriaid lleol a rhanbarthol a'n lle yn, a'n hymrwymiad i Gymru fel ein prif leoliad. Ni yw'r brifysgol gyntaf yng Nghymru i feddu ar Strategaeth Partneriaeth Cenhadaeth Ddinesig benodol. Mae'r Strategaeth wedi galluogi gwneud newid sylweddol ac esblygu ein nod ar y cyd i ddiweddu anghydraddoldeb cymdeithasol yng Ngogledd Cymru erbyn 2030. Mae'r Brifysgol yn gweithredu fel Is-gadeirydd rhwydwaith cenhadaeth ddinesig Cymru a bu'n rhan o siapio'r fframwaith cenhadaeth ddinesig a lansiwyd gan y Gweinidog Addysg ym mis Ionawr 2021, gan roi cyflwyniad yn yr achlysur lansiö. Fel sefydliad angor rydym ni wedi ymrwmo i esblygu ein gwaith cenhadaeth ddinesig mewn partneriaeth ag arweinyddion a chymunedau ar draws y cenedlaethau.

Mae'r enghreifftiau o'r gweithgareddau rydym ni wedi bod yn rhan ohonynt ar draws y rhanbarth fel rhan o'n Strategaeth Partneriaeth Cenhadaeth Ddinesig yn cynnwys:

- galluogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam a Sir y Fflint i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu dull o fynd i'r afael â heriau allweddol fel rhan o'r ymateb rhanbarthol i gydnheredd cymunedol, sydd wedi'i adnabod fel arfer dda gan Lywodraeth Cymru.
- Gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar y Strategaeth Gyda'n Gilydd ar gyfer Iechyd Meddwl a Chynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru Iachach ochr yn ochr â chynghorau lleol i ddatblygu sgiliau adrodd straeon mewn cymunedau.
- Cefnogi gwaith arweinyddiaeth systemau a naratif cyhoeddus i ddarparu rhaglen Arweinyddiaeth 'Effaith trwy gyfrwng Straeon' gyda 50 o blant mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Cyngor Sir y Fflint a DO WELL LTD i gefnogi pobl ifanc i ddatblygu hyder ynghylch eu rôl yn y byd. Mae'r gwaith hwn wedi'i gydnabod gan Gomisiynydd Plant Cymru.
- Datblygu dull partneriaeth i fod y Brifysgol Trawma a Phrofiadau Niweidiol mewn Plentynod gyntaf yng Nghymru trwy bartneriaeth arloesol â Hwb Cenedlaethol Profiadau Niweidiol mewn Plentyn yn ymgysylltu gyda myfyrwyr a staff ar eu taith i ddysgu am drawma a phrofiadau niweidiol mewn plentynod.
- Arwain y bartneriaeth newydd Ymchwil Gogledd Cymru i ddod â gwaith data, mewnwelediad ac ymgysylltu ynghyd ar draws y rhanbarth i uchafu a chysylltu adnoddau ac arbenigedd i gefnogi cynlluniau llesiant dros y pum mlynedd nesaf.

Datblygu galluoedd ein staff

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddenu, datblygu, ymgysylltu a chadw'r staff gorau. Trwy weithredu ein Strategaeth Pobl rydym ni'n ymdrechu i roi cyfleoedd perthnasol i staff ddatblygu eu sgiliau personol a phroffesiynol i'w galluogi i wneud cyfraniad cadarnhaol i weledigaeth ac amcanion strategol y Brifysgol. Mae staff y Brifysgol yn cyfrannu at addysgu a gweithgareddau ymchwil/ysgolheigaidd i ddatblygu eu hymarfer proffesiynol. Mae'r staff hefyd yn cydweithredu gydag academyddion mewn prifysgolion eraill yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol.

Gwnaeth pandemig Covid-19 gyfyngu ar lawer o'r gweithgareddau rydym ni wedi'u cynnal yn ystod blynyddoedd blaenorol er mwyn darparu gweithgareddau cymunedol. Fodd bynnag, isod rhoir enghreifftiau o weithgareddau penodol y bu'r Brifysgol a'i myfyrwyr yn cymryd rhan ynddynt yn ystod 2020/21.

- Cynhaliodd y tîm academaidd Iechyd a Llesiant ddigwyddiad cymunedol am ddim a oedd yn cyd-fynd ag Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl. Roedd Natur Iechyd Meddwl yn drafodaeth am yr effaith y mae natur yn medru ei gael ar ein hiechyd meddwl.
- Roeddem yn rhan o lansio Labordy Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru a gynigiodd ei ddarlith amser cinio cyntaf ym mis Gorffennaf 2021, gyda'r nod o ddatblygu rhaglen o weithgareddau yn y dyfodol.
- Gwnaeth yr adran Gwyddor Chwaraeon weithio gyda Chlwb Gymnasteg Olympus, Llai, i ddarparu cymorth a chefnogaeth i'r athletwr elit, Jacob Edwards. Roedd hwn yn ddatblygiad allweddol i'r dyn ifanc 18 oed wrth iddo dargedu lle yng ngharfan Prydain ar gyfer Gemau'r Gymanwlad 2022.
- Gwnaethom arwain 'Tedx Countdown COP26' ynghylch newid yn yr hinsawdd mewn partneriaeth â GwE, Cyfoeth Naturiol Cymru, Adfywio Cymru a Do-Well (UK) Ltd fel rhan o'r paratodau byd-eang at ddechrau cynhadledd COP26 gan sicrhau fod gan plant a phobl ifanc yn y rhanbarth lais, gyda'r nod o ddatblygu rhaglen llysgenhadon y dyfodol i gefnogi dysgu a dealltwriaeth am Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

- Gwnaeth myfyriwr Plismona helpu i symud pobl i fan diogel yn dilyn llifogydd difrifol ym Mangor Is y Coed. Mae Ruth Tierney yn gwasanaethau fel Cwnstabl Arbennig gyda Heddlu Gogledd Cymru yn ogystal ag astudio, a chynorthwyodd i symud trigolion mewn perygl o ddioddef llifogydd o'u cartrefi pan orlifodd yr Afon Dyfrdwy dros ei glannau ym mis Ionawr.
- Cyflwynwyd Gwobr Canmoliaeth Uchel i fyfyrwr leuenctid a Chymuned gan Aelod Seneddol Wrecsam, Sarah Atherton, am ei gwaith gwirfoddol trwy gydol y cyfnodau clo. Bu Savannah Lloyd yn casglu a chludo presgripsiynau a pharseli bwyd i'r trigolion mwyaf bregus yn ogystal â mynd i siopa ar ran eraill.
- Gwnaethom ddathlu Diwrnod Cerddoriaeth Gymraeg gyda digwyddiad am ddim i'r gymuned ar y campws yn cynnwys cyfres o berfformiadau cerddorol, gan ddod ag amrywiaeth eang o berfformwyr a busnesau o bob rhan o Ogledd Ddwyrain Cymru ynghyd.
- Gwnaeth myfyriwr Addysg gyda Gofal Plant wirfoddoli ar gyfer gwasanaeth cyfeillio ar y ffôn Ffrind mewn Angen Age Cymru. Mae Sarah O'Brien yn cyfrannu i'r gwasanaeth hwn wedi'i anelu at y rhai dros 70 oed sy'n hunan ynysu neu mewn categori gwarchod.
- Bu myfyriwr Gwyddor Chwaraeon, Iechyd a Pherfformiad yn cynorthwyo tîm rheoli newydd Clwb Pel-droed Wrecsam a'r sgwad i baratoi ar gyfer y tymor nesaf. Daeth y tîm draw i'n Labordy Perfformiad Dynol i gael eu pwysu a'u mesur a chynnal profion arnynt a chofnodi eu data.
- Cynigiodd y Brifysgol ei Chanolfan Gynadledda yn Wrecsam a'i chyfleusterau cynadledda yn Llanelwy i'w defnyddio fel canolfannau brechu Covid-19 gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a manteisiwyd ar y cynnig yn llwyddiannus.
- Bu myfyrwr ar gyrsiau yn cynnwys Gofal Cymdeithasol, Gwaith leuenctid a Chymuned a Throsedddeg yn gweithio fel gwirfoddolwyr ac fel gweithwyr cyflogedig i sicrhau bod gwasanaethau allweddol, elusennau a rhagor yn parhau yn ystod y pandemig coronafeirws. Gwnaeth myfyrwr Glyndŵr yn astudio amrywiaeth o gyrsiau gradd, o Beirianeg i Nyrzio, gynorthwyo i ddarparu nwyddau a chodi arian ar gyfer elusennau yn ystod pandemig Covid-19.
- Gwnaethom ymrwmo i'r addewid Busnes C-19, menter a lanswyd gan y cyn Weinidog Cabinet, y Gwir Barchedig Justine Greening a'r entrepreneur David Harrison. Roedd yr addewidion yn cynnwys datblygu cynllun gweithredu i gefnogi ein staff trwy gydol a thu hwnt i'r heriau cyfredol yn gysylltiedig â Covid-19, cyhoeddi cyngor clir a syml i gwsmeriaid ac ymrwmo i helpu'r wlad yn ogystal â'r cymunedau rydym ni'n eu gwasanaethu trwy'r pandemig coronafeirws.

Llywodraethir y Brifysgol gan Fwrdd Llywodraethwyr/Ymddiriedolwyr, nad ydynt yn derbyn cydnabyddiaeth ariannol, yn gyffredin gyda sefydliadau elusennol addysg uwch eraill yn y Deyrnas Unedig. Mae mwyafrif y Llywodraethwyr yn annibynnol o'r Brifysgol, ac mae staff lywodraethwyr a myfyrwr lywodraethwyr ar y corff hefyd.

DATGANIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Mae Prifysgol Glyndŵr Wrecsam wedi ymrwymo i ddangos yr arfer orau ym mhob agwedd o lywodraethu corfforaethol. Mae'r grynoded hon yn disgrifio'r modd mae'r Brifysgol wedi gweithredu'r egwyddorion llywodraethu da perthnasol er mwyn cydymffurfio â'r arfer orau yn y sector addysg uwch.

Mae gan y Brifysgol ddyletswydd i gynnal trafodion mewn modd cyfrifol a thryloyw, ac i ystyried gofynion cyrff cyllido, y safonau mewn bywyd cyhoeddus a gyhoeddwyd gan Bwyllgor Nolan, y Cod Cyfun, Cod Llywodraethu Corfforaethol y Deyrnas Unedig fel mae'n berthnasol i Addysg Uwch a Chod Llywodraethu Addysg Uwch y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion (cyhoeddiad diwygiedig 2020).

Mae Bwrdd Llywodraethwyr y Brifysgol yn gyfrifol am systemau rheolaeth fewnol y Brifysgol a'r Grŵp, ac am adolygu eu heffeithiolrwydd. Dyluniwyd systemau o'r fath i reoli yn hytrach na dileu'r risg o fethu â chyflawni polisiau, nodau ac amcanion a gall ddarparu sicrwydd rhesymol yn unig, nid absoliwt, ynghylch colledion neu gamddatganiadau perthnasol.

Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr wedi mabwysiadu [datganiad prif gyfrifoldebau](#), a gyhoeddir ar wefan y Brifysgol ac a adolygir o leiaf bob dwy flynedd. Diwygiwyd y datganiad yn ystod 2020/21 fel rhan o adolygiad yn erbyn darpariaethau Cod Llywodraethu Addysg Uwch y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion (2020).

Mae'r datganiad yn nodi cyfrifoldebau'r Bwrdd fel prif awdurdod ariannol, busnes a chyfreithiol y Brifysgol, ac awdurdod cyflogi'r holl staff. Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am gymeriad addysgol y Brifysgol a'i gweledigaeth a strategaeth, ei henw da, y cynllunio busnes ac academaidd, monitro perfformiad y sefydliad, llywodraethu academaidd effeithiol, cynaliadwyedd ariannol, iechyd a diogelwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, asedau, eiddo ac ystad y Brifysgol a lles y myfyrwyr, gan sicrhau bod ei gwaith yn y meysydd hyn yn bodloni buddiannau rhanddeiliaid y Brifysgol.

Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr wedi derbyn adroddiadau rheolaidd ers dechrau pandemig Covid-19 ynghylch gweithredu mesurau arbennig i reoli effaith Covid-19 a'r risgiau cysylltiedig. Cynhaliwyd holl gyfarfodydd y Bwrdd ar-lein ers dechrau'r pandemig Covid-19, tra'n cadw at ei amserlen cyfarfodydd arferol yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21. Cytunodd y Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2021 y dylai cyfarfodydd ddychwelyd i fod yn rhai wyneb yn wyneb ar y campws yn arferol ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/22, yn ddarostyngedig i ganllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch y pandemig.

Strwythur Llywodraethu Corfforaethol y Brifysgol

Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr yn cyfarfod o leiaf bum gwaith y flwyddyn gyda llawer o'i waith manwl yn cael ei drin yn ddechreuol gan ei bwyllgorau sefydlog. Mae gan yr holl bwyllgorau hyn gyfansoddiad ffurfiol gyda chylch gwaith, sy'n cael eu hadolygu'n flynyddol, ac maent yn cynnwys aelodau annibynnol yn bennaf. Mae pob pwyllgor yn cael ei gadeirio gan lywodraethwr annibynnol. Mae'r holl bwyllgorau'n adolygu ac yn myfyrio ar eu gwaith, ac yn darparu adroddiad blynyddol i'r Bwrdd Llywodraethwyr.

Mae'r Bwrdd hefyd yn cymryd rhan mewn diwrnod Strategaeth blynyddol gydag aelodau Bwrdd yr Is-Ganghellor i fyfrio ar berfformiad y Brifysgol a materion arwyddocaol eraill. Yn yr un modd mae'r Bwrdd yn cymryd rhan mewn diwrnod datblygu blynyddol lle cynhelir sesiwn i'r llywodraethwyr gyfarfod heb yr Is-Ganghellor a'r Swyddogion Gweithredol yn bresennol. Yn ystod 2020/21 cymrodd y Bwrdd ran mewn diwrnod datblygu rhithiol wedi'i hwyluso gan Advance HE, a gyllidwyd gan CCAUC, ac ni chynhaliwyd y sesiwn breifat i lywodraethwyr yn unig. Bwriedir adfer hyn yn 2021/22.

Ym mis Mawrth 2021 cynhaliodd y Bwrdd adolygiad 360 gradd o berfformiad y Cadeirydd, gan ddefnyddio pecyn arolwg masnachol, a chyflwynwyd adroddiad yn nodi'r canlyniadau i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2021. Roedd yr adborth ar berfformiad y Cadeirydd yn uwch ym mhob maes na'i hunanasesiad. Cytunwyd ar ddull y Bwrdd cyfan o ledaenu'r ymgysylltu â staff a'r Undeb Myfyrwyr yn fwy cyffredinol. Bwriedir cynnal adolygiad o ba mor briodol yw'r pecyn arolwg masnachol ar gyfer perfformiad y Cadeirydd ym mlwyddyn academaidd 2021/22. Cynhaliodd y Cadeirydd gyfarfodydd adolygiad unigol â'r llywodraethwyr, ac roedd y rhain yn trafod

penodi Cadeirydd nesaf y Bwrdd yn bennaf. Cyfarfu'r Cadeirydd â'r llywodraethwyr newydd hefyd fel rhan o'u rhaglen gynefino.

Mae'r strwythur pwyllgorau'n cynnwys pum pwyllgor:

- Mae'r **Pwyllgor Strategaeth a Chyllid** yn cyfarfod bum gwaith y flwyddyn ac mae ganddo gylch gorchwyl ariannol yn ogystal â strategol.
- Mae'r **Pwyllgor Adnoddau Dynol** yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn ac yn monitro iechyd a diogelwch, materion cydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn ystyried data'n ymwneud â staff a pholisïau a gweithdrefnau.
- Mae'r **Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol** yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn, y tro cyntaf i ystyried y datganiad polisi tâl blynyddol. Mae ail gyfarfod y Pwyllgor ym mis Mehefin yn ystyried cydnabyddiaeth ariannol deiliaid uwch swyddi yn unol â'r arfer flynyddol, a chyflwyno adroddiad i'r Bwrdd llawn ynghylch ei benderfyniadau. Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu egwyddorion Cod Cydnabyddiaeth Ariannol y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion (Mehefin 2018).
- Mae'r **Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau** yn cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn ac yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd Llywodraethwyr o ran penodi llywodraethwyr newydd yn unol â'r Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu a rheolau sefydlog y Brifysgol. Mae aelodaeth y Pwyllgor yn cynnwys llywodraethwr staff academaidd a myfyriwr llywodraethwr yn ogystal ag un aelod allanol cyfetholedig nad yw'n aelod o'r Bwrdd Llywodraethwyr.
- Mae'r **Pwyllgor Archwilio** yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn ac fe'i sefydlwyd gan y Bwrdd i'w gynghori a rhoi trosolwg o effeithiolrwydd rheoli risgiau a threfniadau llywodraethu'r Brifysgol, y trefniadau i hybu bod yn economaidd, effeithiol ac effeithlon a'r trefniadau archwilio mewnol ac archwilio allanol. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys tri aelod allanol cyfetholedig o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat, nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd Llywodraethwyr, sy'n darparu barn a safbwynt allanol yn nhrefnadau'r Pwyllgor.

Mae'r aelodau'n cyfarfod yn breifat ag archwilwyr mewnol ac allanol y Brifysgol ar ddechrau bob cyfarfod. Nid oes unrhyw aelodau'r Pwyllgor Archwilio sydd hefyd yn aelodau'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid.

Mae sicrwydd y Bwrdd Llywodraethwyr ynghylch effeithiolrwydd y system risgiau a rheolaethau mewnol yn cael ei hysbysu hefyd gan waith yr uwch reolwyr yn y Brifysgol, sydd â chyfrifoldebau am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaethau mewnol, trwy eu hystyried gan y Pwyllgor Archwilio; a'r sylwadau gan yr archwilwyr mewnol yn eu hadroddiad blynyddol a'r archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli.

Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi mabwysiadu Cod Ymarfer Pwyllgor Archwilio Addysg Uwch y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion (Mai, 2020).

Dull y Brifysgol o reoli risgiau'n effeithiol

Mae'r dull o ymdrin â rheoli risgiau wedi'i seilio ar fod yn rhan weithredol o arfer dda arferol a busnes fel arfer, ond gan gydnabod yr angen am a gwerth cael proses glir, unffurf a chydlynus ar draws y Brifysgol ac i hyn gael ei gofnodi a'i ddogfennu'n ffurfiol. Ceir fframwaith risgiau sefydliadol sy'n nodi'r risgiau strategol/corfforaethol, a gefnogir gan gofrestr risgiau gweithredol. Datblygir y gofrestr risgiau corfforaethol gan Fwrdd yr Is-Ganghellor a'i hadolygu a'i chymeradwyo trwy'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r risgiau corfforaethol yn mynd ar draws ystod o feysydd academaidd, proffesiynol a gweithredol ac yn ystyried y Brifysgol fel sefydliad cenedlaethol a rhyngwladol sy'n gweithredu mewn amgylchedd cyhoeddus a rheoledig.

Mae'r risgiau corfforaethol yn cael eu hadolygu gan yr uwch reolwyr sy'n cael eu penodi'n 'berchennog' risg, ac fe'u hadolygir bob blwyddyn o ran eu priodoldeb; ac yn chwarterol i benderfynu a ydynt yn gyfredol a chydabod unrhyw newidiadau sy'n digwydd yn y flwyddyn. Mae'r gofrestr risgiau corfforaethol yn nodi: natur y risg, effaith potensial y risg a nodwyd, tebygolrwydd y risg yn cael ei wireddu, 'perchennog' y risg a'r ffactorau

lliniaru i reoli'r risg, a rhoir sgôr i hyn cyn ac ar ôl ystyried y camau lliniaru, wrth i wybodaeth ychwanegol gael ei darparu o gwmpas yr 'ysgogiadau' risg a gwylio'r gorwel. Mae'r gofrestr risgiau gweithredol yn eistedd ochr yn ochr â'r gofrestr risgiau corfforaethol, gyda'r cyfrifoldeb fel perchnogion risg gyda'r penaethiaid meysydd academaidd a phroffesiynol perthnasol ar draws holl rannau'r Brifysgol, gyda chymorth ymarferol gan arweinydd risg yn eu maes eu hunain. Gofynnir i bob maes sicrhau fod risgiau lleol yn cael eu hystyried yn weithredol yn eu strwythurau rheoli ac adrodd, gan esgyn i Fwrdd yr Is-Ganghellor os yw'r sgôr gweddilliol yn uchel neu'n uchel iawn. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn ac yn ystyried adroddiad gan ddarparydd archwilio mewnol y Brifysgol, RSM LLP, ar brosesau rheoli risgiau.

Adolygwyd y gofrestr risgiau corfforaethol gan y Bwrdd Llywodraethwyr yn ystod y flwyddyn.

Tra bo Archwilwyr Mewnol y Brifysgol wedi adnabod meysydd i wella fframwaith rheoli risgiau'r Brifysgol, mae'r Bwrdd Llywodraethwyr o'r farn bod proses effeithiol a pharhaus wedi bod yn ei lle i nodi, gwerthuso a rheoli prif risgiau'r brifysgol yn ystod cyfnod y datganiadau ariannol. Mae cynlluniau'n bodoli i roi argymhellion gwella'r Archwilwyr Mewnol ar waith ac mae'r broses rheoli risgiau yn cael ei hadolygu'n rheolaidd yn unol â Pholisi Rheoli Risgiau cymeradwy'r Brifysgol.

Datganiad rheolaeth fewnol

Roedd prif elfennau system rheolaethau mewnol y Grŵp, wedi'u dylunio i gyflawni'r cyfrifoldebau a nodir uchod, yn cynnwys y canlynol:

- Diffiniadau clir y cyfrifoldebau, a'r awdurdod wedi'i ddirprwyo i uwch reolwyr a phenaethiaid meysydd academaidd a phroffesiynol;
- Proses gynllunio tymor canolig a thymor byr, wedi'i ategu gan gyllidebau manwl yn nodi'r incwm, gwariant, cyfalaf a llif arian blynyddol;
- Adolygu recriwtio myfyrwyr yn rheolaidd ac adolygu'r canlyniadau ariannol yn rheolaidd, yn cynnwys adrodd ar amrywiadau a diweddariadau ar y sefyllfaoedd alldro a ragfynegir;
- Gofynion wedi'i diffinio'n glir a'u ffurfioli i gymeradwyo a rheoli gwariant, gyda phenderfyniadau buddsoddi ynghylch gwariant cyfalaf neu refeniw yn ddarostyngedig i arfarniad ffurfiol manwl ac adolygiad yn unol â'r lefel cymeradwy a bennwyd gan y Bwrdd Llywodraethwyr;
- Rheoliadau Ariannol Cynhwysfawr, yn nodi'r rheolaethau a'r gweithdrefnau ariannol, wedi'u cymeradwyo gan y Bwrdd Llywodraethwyr;
- Tîm Archwilio Mewnol annibynnol proffesiynol y mae eu rhaglen flynyddol yn cael ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio;
- Cysylltu adnabod a rheoli risgiau gyda chyflawni amcanion strategol y Brifysgol trwy'r broses gynllunio;
- Gwerthuso tebygolrwydd ac effaith risgiau'n cael eu gwireddu fel rhan o'r un broses, a sefydlu mesurau lleddf;u;
- Gwreiddio rheoli risgiau a phrosesau rheoli mewnol yng ngweithrediad parhaus yr holl adrannau academaidd a gwasanaethau proffesiynol;
- Adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio, ac yna i'r Bwrdd Llywodraethwyr, ar risgiau a rheolaethau mewnol; ac
- Adroddiadau i'r Bwrdd Llywodraethwyr ar brif ganlyniadau adnabod a gwerthuso risgiau ac adolygu eu rheoli.

Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi adolygu effeithiolrwydd system rheolaethau mewnol y Brifysgol ar ran y Bwrdd Llywodraethwyr.

Cod Llywodraethu Addysg Uwch y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion

Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu'r Cod y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion a gwnaeth ei adolygiad effeithiolrwydd yn 2017/18 gadarnhau cadw at y Cod (2015). Yn ystod 2020/21 cwblhaodd y Bwrdd ei gynllun gweithredu i weithredu'r argymhellion yn deillio o'r adolygiad hwn a phenodwyd darparwydd annibynnol i gynnal yr adolygiad effeithiolrwydd nesaf. Bydd hyn yn cael ei drefnu yn ystod blwyddyn academaidd 2021/22.

Gwnaeth y Bwrdd asesu ei arferion yn erbyn Cod diwygiedig y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion a gyhoeddwyd ym mis Mai 2020 ac roedd o'r farn ei fod yn bodloni darpariaethau'r Cod, yn ddarostyngedig i ystyried dau fater allweddol.

- **Deilliannau addysgol wedi'u gwahaniaethu.** Tra bo'r Bwrdd yn monitro ac yn derbyn adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, trwy waith ei Bwyllgor Adnoddau Dynol, cytunodd y Bwrdd nad yw'r adroddiad yn ystyried deilliannau gwahaniaethol ar gyfer grwpiau gwarchoddedig yn ddigonol. Datblygwyd cynllun i fynd i'r afael â'r mater hwn a bydd y Bwrdd yn derbyn adroddiadau manylach ynghylch deilliannau gwahaniaethol myfyrwyr yn ystod blwyddyn academaidd 2021/22.
- **Uwch Lywodraethwr Annibynnol.** Ystyriodd y Bwrdd yr amrediad o fecanweithiau sy'n bodoli i gynorthwyo i gynghori'r Cadeirydd, darparu llais a chyfle i drafod i lywodraethwyr eraill i wirio effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu a chynnal arfarniad y Cadeirydd. Mae'r olaf yn cael ei wneud gan yr Is-gadeirydd ar hyn o bryd. Penderfynodd y Bwrdd nad oedd angen Uwch Lywodraethwr Annibynnol am y tro. Fodd bynnag, penderfynwyd y byddai Cadeirydd newydd yn cael ei benodi i'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu yn ystod blwyddyn academaidd 2021/22, ac ni fydd yr unigolyn hwnnw'n Gadeirydd y Bwrdd fel yw'r achos ar hyn o bryd. Bydd Cadeirydd newydd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu yn dod yn arweinydd *de facto* materion llywodraethu.

Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr wedi cadw at ddarpariaethau Cod Llywodraethu Addysg Uwch y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion (Mai 2020) trwy gydol 2020/21, ac eithrio'r ddau fater uchod, y bwriedir mynd i'r afael â nhw yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22.

Adolygiad Llywodraethiant Prifysgolion yng Nghymru (Camm) 2019.

Mabwysiadodd y Bwrdd y Siarter Llywodraethiant Prifysgolion yng Nghymru ym mis Mai 2020. Mae'r Siarter yn mapio dull o wella llywodraethiant a fabwysiadwyd gan yr holl brifysgolion yng Nghymru i ddangos eu hymrwymiad i ddatblygiad parhaus a gwella llywodraethiant yn eu prifysgolion eu hunain ac yn y sector yng Nghymru yn ei gyfanrwydd.

Gwnaeth y Bwrdd barhau i roi ei [gynllun gweithredu](#) ar waith trwy gydol blwyddyn academaidd 2020/21 i fodloni'r ymrwymadau yn yr adroddiad adolygiad. Mae 31 o'r 46 gweithred weid'u cwblhau hyd yma, gyda'r rhai sy'n weddill un ai'n ddibynnol ar waith cyrff eraill allanol i'r Brifysgol neu ni chyrrhaeddwyd eu dyddiad cwblhau hyd yma.

Yn adeiladu ar y camau gweithredu a gyflwynwyd ym mlwyddyn academaidd 2019/20, roedd y camau gweithredu a gwblhawyd yn ystod 2020/21 yn cynnwys: mabwysiadu'r Canllawiau Annibyniaeth i Lywodraethwyr a thempled Adroddiad Blynyddol digwygiedig, y ddau wedi'u datblygu gan Grŵp Clercod ac Ysgrifenyddion Prifysgolion Cymru; cymeradwyo Datganiad y Bwrdd ynghylch Meincnodi; cyflwyno datganiad cymhwysedd Llywodraethwyr/Ymddiriedolwyr newydd; cymeradwyo diffiniad prosiectau aml-ddisgyblaeth ar raddfa fawr; cymeradwyo Polisi Datgelu er Budd Cyhoeddus (Chwythu'r Chwiban) diwygiedig a adolygwyd gyda chymorth mewnbwn allanol a chymeradwyo Cod Ymddygiad y Brifysgol ar Reoli Gwrthdrawiadau Buddiannau.

Defnyddiwyd pecyn arolwg 360 gradd ar gyfer adolygiad blynyddol perfformiad Cadeirydd y Bwrdd a bydd addasrwydd y pecyn arolygu yn cael ei adolygu yn ystod blwyddyn academaidd 2021/22. Cyflwynwyd adolygiadau 360 gradd ar gyfer aelodau Tîm Gweithredol yr Is-Ganghellor yn ystod y flwyddyn ac yn y dyfodol bydd y broses yn cael ei gwreiddio'n rhan o'r broses Adolygiad Datblygiad Proffesiynol. Nod y Bwrdd yw cwblhau'r camau gweithredu hynny y gall eu rheoli erbyn diwedd blwyddyn academaidd 2021/22.

LLYWODRAETHWYR AC YMDDIRIEDOLWYR Y BRIFYSGOL

Gwasanaethodd y bobl isod fel Llywodraethwyr ac Ymddiriedolwyr yr Elusen yn ystod 2020/21 a hyd at ddyddiad llofnodi'r datganiadau ariannol archwiliedig.

Llywodraethwyr Annibynnol

Maxine Penlington OBE	Cadeirydd
Paul Barlow	Is-gadeirydd
James Barclay	
Yr Athro Martin Chambers	(o 27/9/21)
Claire Homard	
Celia Jenkins	
Yr Athro Sandra Jowett	
Paul McGrady	
Dr Jayne Mitchell	(tan 31/8/21)
Judy Owen	
Askar Sheibani	
David Subacchi	
Diane McCarthy	(o 1/7/21)
Richard Thomas	(o 31/7/21)
Maureen Wain	(o 31/7/21)

Is-Ganghellor

Yr Athro Maria Hinfelaar

Staff Lywodraethwyr etholedig

Laura Gough	(tan 31/8/21)
David Sprake	
Sally Lambah	(o 1/9/21)

Enwebai'r Bwrdd Academaidd

Colin Heron

Clerc y Bwrdd Llywodraethwyr

Val Butterworth

Myfyriwr Lywodraethwyr

Ebony Banks	(tan 30/6/21)
Chloe Williams	(tan 13/9/21)
Lauren Hole	(o 1/7/21)
Amy Rowley	(o 14/9/21)

CYFRIFOLDEBAU BWRDD LLYWODRAETHWYR Y BRIFYSGOL

Yn unol â Deddf Diwygio Addysg 1988 mae Bwrdd Llywodraethwyr Prifysgol Glyndŵr yn gyfrifol am weinyddiaeth a rheolaeth y Brifysgol a'r Grŵp ac mae'n ofynnol i'r Bwrdd gyflwyno datganiadau ariannol archwiliedig ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr yn gyfrifol am sicrhau y cedwir cofnodion cyfrifyddu priodol, sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y Brifysgol a'r Grŵp ac yn ei alluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi yn unol â'r Datganiad Arfer a Argymhellir (SORP) ar Gyfrifyddu mewn Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch a safonau cyfrifyddu eraill perthnasol. Yn ychwanegol, yn nhelerau ac amodau Memorandwm Sicrwydd ac Atebolwydd a'r Cod Rheolaeth Ariannol a gyhoeddir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, mae'n ofynnol paratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, trwy ei ddeiliad swydd atebol, sy'n rhoi darlun cywir a theg o gyflwr ariannol y Brifysgol a'r Grŵp a'r gwarged neu'r diffyg, cyfanswm yr enillion neu'r colledion a'r llifau arian ar gyfer y flwyddyn dan sylw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn mae'r Bwrdd Llywodraethwyr wedi sicrhau:

- dethol a chymhwyso polisiau cyfrifyddu addas gyda chysondeb;
- llunio dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol a darbodus;
- dilyn safonau cyfrifyddu perthnasol, yn ddarostyngedig i unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelwyd ac a esboniwyd yn y datganiadau ariannol;
- bod datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y Brifysgol a'r Grŵp yn parhau i weithredu.

Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr wedi cymryd camau rhesymol i:

- sicrhau bod y cyllid gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn cael ei ddefnyddio at y dibenion y'i rhoddyd yn unig, ac yn unol â'r Cod Rheolaeth Ariannol ac unrhyw amodau eraill y gall y Cyngor Cyllido eu rhagnodi o dro i dro;
- sicrhau bod rheolaethau ariannol a rheoli priodol yn eu lle i ddiogelu arian cyhoeddus ac arian o ffynonellau eraill;
- diogelu asedau'r Brifysgol ac atal a chanfod twyll;
- sicrhau rheolaeth effeithiol, effeithlon a darbodus adnoddau a gwariant y Brifysgol.

Yr Athro Maria Hinfelaar

Is-Ganghellor a Phrif Weithredwr

ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL I FWRDD LLYWODRAETHWYR PRIFYSGOL GLYNDŴR

ADRODDIAD AR ARCHWILIAD Y DATGANIADAU ARIANNOL

Barn

Rydym ni wedi archwilio datganiadau ariannol Prifysgol Glyndŵr (“y Brifysgol”) am y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2021 sy’n cynnwys Datganiad Incwm Cynhwysfawr y Brifysgol a Chyfunol, Datganiadau Newidiadau yng Nghronfeydd Wrth Gefn y Brifysgol a Chyfunol, Mantolenni'r Brifysgol a Chyfunol, Llif Arian Cyfunol a nodiadau cysylltiedig, yn cynnwys y Datganiad Prif Bolisiau Cyfrifyddu.

Yn ein barn ni mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr gweithgareddau'r Grŵp a'r Brifysgol ar 31 Gorffennaf 2020, ac incwm a gwariant y Grŵp a'r Brifysgol, yr enillion a'r colledion a'r newidiadau yn y cronfeydd wrth gefn, a llifau arian y Grŵp, am y flwyddyn a ddiweddodd;
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, yn cynnwys FRS 102 *Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon*, a gyda'r *Datganiad o'r Arfer a Argymhellir – Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch 2019*; ac
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011.

Sail y farn

Cawsom ein penodi'n archwilydd dan Siarteri a Statudau'r sefydliad ac yn unol ag adran 144 Deddf Elusennau 2011 (neu ei ragflaenwyr) ac adroddir yn unol â'r rheoliadau a wnaed dan adran 154 y Ddeddf honno.

Gwnaethom gynnal ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y Deyrnas Unedig a chyfraith gymwys. Disgrifir ein cyfrifoldebau isod. Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol yn unol â gofynion moesegol y Deyrnas Unedig, yn cynnwys Safon Foesebol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym yn annibynnol i'r grŵp. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol i fod yn sail i'n barn.

Busnes gweithredol

Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr wedi paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, gan nad ydynt yn bwriadu diddymu'r Grŵp nac i'r Brifysgol roi'r gorau i'w gweithrediadau, a gan ei fod wedi dod i'r casgliad bod sefyllfa ariannol y Grŵp a'r Brifysgol yn golygu fod hyn yn realistig. Maent hefyd wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw ansicrwydd sylfaenol a allai greu amheuaeth arwyddocaol ynghylch ei gallu i barhau fel busnes gweithredol am o leiaf flwyddyn o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol (“y cyfnod busnes gweithredol”).

Wrth werthuso casgliadau'r Bwrdd Llywodraethwyr gwnaethom ystyried y risgiau cynhenid i fodel busnes y grŵp a dadansoddi sut y gallai'r risgiau hynny effeithio ar adnoddau ariannol y Grŵp a'r Brifysgol neu'r gallu i barhau i weithredu yn ystod y cyfnod busnes gweithredol.

Dyma ein casgliadau ar sail y gwaith hwn:

- rydym ni'n ystyried bod defnydd y Bwrdd Llywodraethwyr o'r sail busnes gweithredol o ran cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau priodol yn briodol;

- nid ydym wedi adnabod, ac rydym yn cytuno ag asesiad y Bwrdd Llywodraethwyr, nad oes ansicrwydd perthnasol yn gysylltiedig â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, godi amheuaeth arwyddocaol ynghylch gallu'r Grŵp neu'r Brifysgol i barhau fel busnes gweithredol yn ystod y cyfnod busnes gweithredol.

Serch hynny, ni allwn ragfyneigi'r holl ddigwyddiadau neu amodau yn y dyfodol, a gan y gall digwyddiadau dilynol arwain at ganlyniadau sy'n anghyson gyda barn a oedd yn rhesymol ar adeg llunio'r farn, nid yw diffyg cyfeirio at ansicrwydd sylfaenol yn yr adroddiad archwilydd hwn yn warant y bydd y Grŵp neu'r Brifysgol yn parhau i weithredu.

Twyll a thorri deddfau a rheoliadau – y gallu i ganfod hyn

Er mwyn adnabod risgiau o gamddatganiadau perthnasol oherwydd twyll (“risgiau twyll”) gwnaethom asesu digwyddiadau neu amodau a allai ddynodi cymhelliant neu bwysau i gyflawni twyll neu ddarparu cyfle i gyflawni twyll. Roedd ein gweithdrefnau asesu risgiau yn cynnwys:

- Holi'r rhai'n gyfrifol am lywodraethu a'r Pwyllgor Archwilio, ac archwilio dogfennau polisi i weld polisiâu a gweithdrefnau lefel uchel y Grŵp i atal a chanfod twyll, yn cynnwys y swyddogaeth archwilio mewnol, a sianel y Grŵp ar gyfer “chwythu'r chwiban”, yn ogystal ag a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth o dwyll neu dwyll honedig.
- Darllen cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid.
- Defnyddio gweithdrefnau dadansoddiadol i adnabod unrhyw berthnasoedd anarferol neu annisgwyl.

Cyfathrebwyd risgiau twyll a nodwyd trwy'r tîm archwilio ac roeddynt yn wyliadwrus am unrhyw arwyddion o dwyll trwy gydol yr archwiliad.

Fel sy'n ofynnol gan safonau cyfrifyddu, rydym ni'n cyflawni gweithdrefnau i fynd i'r afael â'r risg o reolwyr yn goresgyn rheolaethau a'r risg o gydnabod refeniw yn dwyllodrus, yn enwedig y risg bod incwm o ffioedd dysgu yn perthyn i gyrsiau sy'n mynd y tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cael eu cofnodi yn y cyfnod anghywir a'r risg y gallai rheolwyr y Brifysgol fod mewn sefyllfa i wneud cofnodion cyfrifyddu amhriodol.

Ni wnaethom ni adnabod unrhyw risgiau twyll ychwanegol.

Gwnaethom gyflawni gweithdrefnau'n cynnwys:

- Adnabod trafodion yn y llyfr cyfrifon i'w profi ar sail meini prawf risgiau a chymharu'r trafodion a gofnodwyd gyda'r dogfennau cefnogol. Roedd y rhain yn cynnwys trafodion a gofnodwyd gan uwch reolwyr ariannol, rhai o gofnodwyd ac a gymeradwywyd gan yr un defnyddiwr, cofnodion arian parod y tu allan i'n cyfuniadau disgwylidig a chofnodion wedi'u tadogi i drosiant i ohirio ffioedd dysgu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.
- Asesu a oedd trafodion refeniw ffioedd dysgu y naill ochr i ddiwedd y flwyddyn ariannol wedi'u cofnodi yn y cyfnod cywir.

Adnabod ac ymateb i risgiau camddatganiadau perthnasol oherwydd diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau

Gwnaethom adnabod meysydd mewn deddfau a rheoliadau y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt gael effaith perthnasol ar y datganiadau ariannol o'n profiad masnachol cyffredinol a'n profiad yn y sector, a thrwy drafodaethau â'r rhai'n gyfrifol am lywodraethu a rheoli fel arall (fel sy'n ofynnol gan safonau archwilio), a thrafod â'r rhai'n gyfrifol am lywodraethu a rheoli polisïau a gweithdrefnau i gydymffurfio â deddfau a rheoliadau.

Gan fod y Brifysgol wedi'i rheoleiddio roedd ein hasesiad o'r risgiau'n cynnwys meithrin dealltwriaeth am yr amgylchedd reoli, yn cynnwys gweithdrefnau'r endid i gydymffurfio â gofynion rheoleiddio.

Gwnaethom gyfathrebu deddfau a rheoliadau trwy'r tîm ac roeddynt yn cadw llygad am unrhyw arwyddion o ddiffyg cydymffurfio trwy gydol yr archwiliad.

Mae effaith potensial y deddfau a'r rheoliadau hyn ar y datganiadau ariannol yn amrywio'n sylweddol. Yn gyntaf, mae'r Brifysgol yn ddarostyngedig i ddeddfau a rheoliadau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y datganiadau ariannol, yn cynnwys deddfwriaeth adrodd yn ariannol, deddfwriaeth pensiynau a datgeliadau penodol sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth a rheoliadau addysg uwch, deddfwriaeth a rheoliadau elusennau a gwnaethom asesu i ba raddau y cydymffurfiwyd â'r deddfau a'r rheoliadau hyn fel rhan o'n gweithdrefnau ynghylch yr eitemau datganiadau ariannol cysylltiedig.

Yn ail, mae'r Grŵp a'r Brifysgol yn ddarostyngedig i lawer o ddeddfau a rheoliadau eraill lle gallai canlyniadau diffyg cydymffurfio gael effaith perthnasol ar symiau neu ddatgeliadau yn y datganiadau ariannol, er enghraifft, trwy gael dirwyon neu gyfreitha neu'r angen i gynnwys darpariaethau arwyddocaol. Gwnaethom adnabod y meysydd a ganlyn fel y rhai mwyaf tebygol o gael effaith o'r fath: cydymffurfio â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), deddfwriaeth cyflogaeth, deddfwriaeth iechyd a diogelwch, deddfwriaeth gwrth lwgrwobrwyo ac agweddau penodol rheoliadau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn cydnabod natur reoleiddiedig gweithgareddau'r Brifysgol. Mae safonau archwilio yn cyfyngu'r gweithdrefnau archwilio gofynnol i adnabod diffyg cydymffurfio â'r deddfau a'r rheoliadau hyn i holi'r cyfarwyddwyr a rheolwyr eraill ac archwilio gohebiaeth reoleiddio a chyfreithiol, os oedd gohebiaeth o'r fath. Felly, os nad yw torri rheoliadau gweithredol yn cael ei ddatgelu i ni neu'n amlwg o ohebiaeth berthnasol, ni fydd archwiliad yn canfod y torri rheolau.

Cyd-destun gallu'r archwiliad i ganfod twyll neu dorri deddfau neu reoliadau

Yn sgîl cyfyngiadau cynhenid archwiliad, mae risg na ellir ei osgoi efallai na wnaethom ni ganfod rhai camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, er ein bod ni wedi cynllunio a chyflawni ein harchwiliad yn briodol yn unol â safonau archwilio. Er enghraifft, y pellach yw'r diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau oddi wrth y digwyddiadau a'r trafodion a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol, y lleiaf tebygol yw y byddai'r gweithdrefnau cyfyngedig cynhenid sy'n ofynnol gan safonau archwilio yn eu hadnabod.

Yn ychwanegol, fel yn achos unrhyw archwiliad, roedd risg uchel yn parhau o ddiffyg canfod twyll, gan y gallent gynnwys cydweithio, ffugio, hepgoriadau bwriadol, camsylwadau neu oresgyn rheolaethau mewmol. Dyluniwyd ein gweithdrefnau archwilio i ganfod camddatganiadau perthnasol. Nid ydym yn gyfrifol am atal diffyg cydymffurfio neu dwyll ac ni ellir disgwyl i ni ganfod diffyg cydymffurfio â'r holl ddeddfau a rheolaethau.

Gwybodaeth arall

Y Bwrdd Llywodraethwyr sy'n gyfrifol am wybodaeth arall, sy'n cynnwys yr Adolygiad Ariannol a Gweithredol, Datganiad Llywodraethu Corfforaethol a'r Datganiad Budd Cyhoeddus. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, yn unol â hynny, nid ydym ni'n mynegi barn archwilio nac unrhyw fath o gasgliad sicrwydd amdanynt.

Ein cyfrifoldeb ni yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, nodi unrhyw anghysondebau neu gamddatganiadau o bwys ar sail ein gwaith archwilio'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth wrth gynnal yr archwiliad. Mae'n ofynnol i ni adroddi i chi os:

- ar sail y gwaith hwnnw'n unig, ein bod wedi adnabod camddatganiadau perthnasol yn yr wybodaeth arall; ac
- yn ein barn ni, bod yr wybodaeth a roir yn yr Adolygiad Gweithredol ac Ariannol, y Datganiad Llywodraethu Corfforaethol a'r Datganiad Budd Cyhoeddus, yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Nid oes gennym ni unrhyw beth i'w adrodd yn y cyswllt hwn.

Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt fel eithriad

Dan Ddeddf Elusennau 2011 mae'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiad i chi os, yn ein barn ni:

- nad yw'r elusen wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer ein harchwiliad.

Nid oes gennym ni unrhyw beth i'w adrodd yn y cyswllt hwn.

Cyfrifoldebau'r Bwrdd Llywodraethwyr

Fel yr eglurir yn llawnach yn ei ddatganiad ar dudalen 40, mae'r Bwrdd Llywodraethwyr yn gyfrifol am: baratoi'r datganiadau ariannol a bodloni ei hun eu bod yn rhoi darlun cywir a theg; bod y rheolaethau mewnol y penderfynir eu bod yn angenrheidiol i alluogi paratoi'r datganiadau ariannol yn rhydd o unrhyw gamddatgan o bwys, p'un ai oherwydd twyll neu wall; asesu gallu'r grŵp a'r rhiant Brifysgol i barhau fel busnes gweithredol gan ddatgelu, fel bo'n briodol, faterion sy'n gysylltiedig â busnes gweithredol; a defnyddio cyfrifyddu ar sail busnes gweithredol oni bai ei fod un ai'n bwriadu diddymu'r grŵp neu'r rhiant Brifysgol neu roi'r gorau i weithredu, neu nad oes ganddo unrhyw ddewis amgen realistig ac eithrio gwneud hynny.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd

Ein hamcanion ni yw sicrhau sicrwydd rhesymol ynghylch p'un ai yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau o bwys, p'un ai oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi ein barn mewn adroddiad archwilydd. Mae sicrwydd rhesymol yn sicrwydd lefel uchel, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhaliwyd yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio bob amser yn canfod camddatganiad o bwys lle bo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad, ac ystyrir eu bod o bwys os y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol, yn unigol neu'n gyfunol.

Darperir disgrifiad llawnach o'n cyfrifoldebau ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol - www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities.

ADRODDIAD AR OFYNIION CYFREITHIOL A RHEOLEIDDIOL ERAILL

Mae'n ofynnol i ni adrodd ar y materion isod dan God Ymarfer Archwilio Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a gyhoeddwyd dan y Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a'r Cod Rheolaeth Ariannol a gyhoeddwyd dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.

Yn ein barn ni, ym mhob ffordd berthnasol:

- mae'r cronfeydd o ba bynnag ffynhonnell a weinyddwyd gan y Grŵp neu'r Brifysgol at ddibenion penodol wedi'u cymhwyso'n briodol at y dibenion hynny a'u rheoli yn unol â deddfwriaeth berthnasol;
- mae cronfeydd a ddarparwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru wedi eu cymhwyso yn unol â'r Memorandwm Sicrwydd ac Atebolwydd ac unrhyw delerau ac adnoddau eraill yn gysylltiedig â nhw; a
- bodlonwyd cyfarwyddeb cyfrifon CCAUC.

DIBEN EIN GWAITH ARCHWILIO AC I BWY RYDYM NI'N ATEBOL

Cyflwynir yr adroddiad hwn i'r Bwrdd Llywodraethwyr yn unig, yn unol ag Erthyglau Llywodraethu'r Brifysgol ac Adran 124B Deddf Diwygio Addysg 1988 ac yn unol ag Adran 144 Deddf Elusennau 2011 (neu ei rhagflaenydd) a rheoliadau a wnaed dan Adran 154 y Ddeddf honno. Cynhaliwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni ddatgan wrth y Bwrdd Llywodraethwyr am y materion hynny y mae'n ofynnol i ni ddatgan arnynt mewn adroddiad archwilydd ac nid at unrhyw ddiben arall. Nid ydym yn derbyn nac yn tybio cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r Brifysgol a'r Bwrdd Llywodraethwyr am ein gwaith archwilio, yr adroddiad hwn neu'r farn a ffurfiwyd gennym ni, i'r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith.

James Boyle

ar ran KPMG LLP, Archwilydd Statudol

Chartered Accountants

1 St Peter's Square

Manceinion / Manchester

M2 3AE

1 Rhagfyr 2021

DATGANIAD CYFRIFOLDEBAU'R BWRDD LLYWODRAETHWYR O RAN YR ADRODDIAD BLYNYDDOL A'R DATGANIADAU ARIANNOL

Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion y Memorandwm Sicrwydd ac Atebolrwydd a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a deddfwriaeth a rheoliadau perthnasol.

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Llywodraethwyr baratoi datganiadau ariannol y grŵp a'r rhiant Brifysgol yn unol â safonau cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig a deddfwriaeth berthnasol (Arferion Cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn y Deyrnas Unedig), yn cynnwys FRS 102 *Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon* a gofynion Deddf Elusennau 2011. Mae telerau ac amodau'r cyllid yn ei gwneud yn ofynnol i ddatganiadau ariannol gael eu paratoi yn unol â'r Datganiad Arfer a Argymhellir 2019 – Cyfrifyddu mewn Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch, yn unol â gofynion y Gyfarwydddeb Cyfrifyddu i Sefydliadau Addysg Uwch ar gyfer 2020/21 a gyhoeddwyd gan CCAUC.

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Llywodraethwyr baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o gyflwr ariannol y grŵp a'r rhiant Brifysgol, a'u hincwm a'u gwariant, eu henillion a'u colledion a'r newidiadau yn y cronfeydd wrth gefn yn y cyfnod dan sylw. Wrth baratoi datganiadau ariannol y grŵp a'r rhiant Brifysgol, mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr:

- ddethol a chymhwyso polisiau cyfrifyddu addas gyda chysondeb;
- llunio dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol a darbodus;
- datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol y Deyrnas Unedig, yn ddarostyngedig i unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelwyd ac a esboniwyd yn y datganiadau ariannol;
- asesu gallu'r grŵp a'r rhiant Brifysgol i barhau fel busnes gweithredol gan ddatgelu, fel bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol; a
- defnyddio'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai eu bod yn bwriadu diddymu'r grŵp neu'r rhiant Brifysgol neu roi'r gorau i weithredu, neu nad ydynt yn meddu ar ddewis amgen realistig ac eithrio gwneud hynny.

Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr yn gyfrifol am sicrhau y cedwir cofnodion cyfrifyddu priodol, sy'n ddigonol i ddangos ac esbonio trafodion y rhiant Brifysgol a datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol y rhiant Brifysgol. Maent yn gyfrifol am reolaethau mewnol fel y maent yn benderfynu sy'n angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, p'un ai oherwydd twyll neu wall, ac mae ganddynt gyfrifoldeb cyffredinol i gymryd y fath gamau ag sy'n rhesymol agored iddynt i ddiogelu asedau'r grŵp ac atal a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.

Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod:

- cyllid o unrhyw ffynhonnell a weinyddir gan y Grŵp neu'r Brifysgol at ddibenion penodol wedi'u defnyddio'r briodol ar gyfer y dibenion hynny a'u defnyddio yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol;
- cyllid a ddarparwyd gan CCAUC wedi'i ddefnyddio yn unol â'r Memorandwm Sicrwydd ac Atebolrwydd a'r Cod Rheolaeth Ariannol ac y dilynwyd y telerau ac amodau cysylltiedig;
- sicrhau bod rheolaethau ariannol a rheoli priodol yn eu lle i ddiogelu arian cyhoeddus ac arian o ffynonellau eraill; a
- sicrhau rheoli adnoddau a gwariant y brifysgol mewn modd economaidd, effeithlon ac effeithiol.

Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr yn gyfrifol am gynnal a sicrhau integriti'r wybodaeth gorfforaethol ac ariannol a gynhwysir ar wefan y Brifysgol. Gallai deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n llywodraethu paratoi a rhannu datganiad ariannol fel yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Cyfrifon ariannol

Datganiad y prif bolisiau cyfrifyddu

Sail paratoi

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir: Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch 2015 ac yn unol â Safon Adrodd Ariannol 102 (FRS102), sef y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon. Mae'r Brifysgol yn endid budd cyhoeddus ac felly mae wedi cymhwysu'r gofyniad budd cyhoeddus perthnasol o ran FRS 102. Lle bo'n berthnasol mae'r datganiadau ariannol yn cadw at gyfarwydddebau cyfrifyddu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Busnes gweithredol

Nodir gweithgareddau'r Grŵp a'r rhiant Brifysgol, ynghyd â'r ffactorau sy'n debygol o effeithio ar ei ddatblygiad, ei berfformiad a'i sefyllfa yn y dyfodol, yn yr Adolygiad Gweithredol ac Ariannol. Mae'r Adolygiad Gweithredol ac Ariannol hefyd yn disgrifio sefyllfa ariannol y sefydliad, ei lifau arian, ei sefyllfa hylifedd a'i gyfleusterau benthyca.

Paratowyd y datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol y mae'r Bwrdd Llywodraethwyr yn ei ystyried yn briodol am y rhesymau a ganlyn.

Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr wedi paratoi rhagfynegiadau llif arian am gyfnod o 12 mis o leiaf o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn. Ar ôl adolygu'r rhagfynegiadau hyn mae'r Corff Llywodraethu o'r farn, gan ystyried y dirywiadau difrifol rhesymol, yn cynnwys effaith disgwylidig COVID-19, y bydd gan y Grŵp a'r rhiant Brifysgol gyllid digonol i fodloni ei rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus yn ystod y cyfnod 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol (cyfnod asesu'r busnes gweithredol).

Wrth ddod i'r farn hon am gynaliadwyedd ariannol y sefydliad, ystyriwyd y ffactorau a ganlyn:

Ariannol

- monitro perfformiad yn rheolaidd trwy adroddiadau misol, cyllidebau blynyddol a rhagfynegiadau ariannol blynyddol, yn cynnwys cyflwyno rhagfynegiadau i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.
- mesur yn erbyn y Strategaeth Gorfforaethol a'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol cysylltiedig a chydymffurfio â chyfamodau ariannol ein benthyccwr.
- strategaeth llif arian sy'n cyd-fynd â'r drefn gyllido ac sy'n ystyried llanw a thrai'r gylchred gyllido.

Anariannol

- mesur yn erbyn y Strategaeth Gorfforaethol a'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol cysylltiedig.
- cadw Cofrestr Risgiau sy'n ystyried y risgiau strategol ariannol ac anariannol.
- parhau i ddarparu swyddogaethau llywodraethu a chyfreithiol sy'n cwmpasu'r holl gydymffurfio ariannol, statudol a rheoleiddiol.

Roedd gan y Brifysgol gyfleuster benthycciad gyda'r Allied Irish Bank yn gorffen yn Awst 2021. Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr wedi negodi cytundeb benthycciad newydd a fydd yn darparu cyfleuster £7.75m am gyfnod o flwyddyn hyd at Awst 2022. Yn ystod mis Medi 2021 cwblhawyd gwerthu dau ddarn o dir gan Grŵp y Brifysgol gan ryddhau elw arian parod net o £9.4m i gynyddu'r cronfeydd wrth gefn arian parod yn arwyddocaol. Cwblhawyd modelu llif arian trwyadl a phrofi senarios a ddangosodd bod Grŵp y Brifysgol yn dal cronfeydd arian parod digonol i ad-dalu'r benthycciad pan fo'n ofynnol, yn ychwanegol at gostau parhaus y gweithgarwch yn y dyfodol rhagweladwy. Mae'r

cronfeydd arian parod wrth gefn hyn yn ddigonol i fodloni'r gofynion paratoi ar sail busnes gweithredol.

Datganiad y prif bolisiau cyfrifyddu (parhad)

O ganlyniad, mae'r Corff Llywodraethu yn hyderus y bydd gan y Grŵp a'r rhiant Brifysgol gyllid digonol i barhau i fodloni ei rwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus am o leiaf 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol ac felly paratowyd y datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol.

Sail cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol dan y confensiwn costau hanesyddol, wedi'i addasu gan y gost dybiedig ar gyfer rhai asedau sefydlog fel y cawsant eu hailbrizio gyda chyflwyno adrodd ar sail FRS102.

Sail cyfuno

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys y Brifysgol a'i holl is-gwmnïau ar gyfer y flwyddyn ariannol hyd at 31 Gorffennaf 2021. Mae canlyniadau is-gwmnïau a gafodd eu caffael neu eu gwaredu yn ystod y cyfnod wedi'u cynnwys yn y datganiad incwm a gwariant cyfunol o ddyddiad eu caffael neu hyd at ddyddiad eu gwaredu. Mae trafodion mewnol rhwng y grŵp yn cael eu dileu wrth eu cyfuno.

Nid yw'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys incwm a gwariant yr Undeb Myfyrwyr gan nad oedd gan y Brifysgol reolaeth na dylanwad tra-arglwyddiaethol dros benderfyniadau polisi.

Darperir manylion am drafodion is-gwmnïau'r Brifysgol yn nodyn 20 y datganiadau ariannol.

Cydnabod incwm

Dangosir grantiau bloc y Cyngor Cyllido yn y cyfnod y maent yn berthnasol iddo.

Mae incwm o werthu nwyddau neu wasanaethau'n cael ei gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Cyfunol pan fo'r nwyddau neu'r gwasanaethau'n cael eu cyflenwi i'r cwsmeriaid allanol neu pan fo telerau'r cytundeb wedi'u bodloni.

Mae'r incwm ffioedd yn cael ei ddatgan ar sail gros o unrhyw wariant nad yw'n ddisgownt, a'i gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Cyfunol dros y cyfnod y mae'r myfyrwyr yn astudio. Lle bo swm y ffi dysgu wedi'i leihau, trwy ddisgownt am dalu'n brydlon, dangosir yr incwm a dderbynnir yn net o'r disgownt. Cyfrifyddir am ysgoloriaethau a bwrsariau ar sail gros fel gwariant ac nid ydynt yn cael eu didynnu o'r incwm.

Cyllid Grant gan y Llywodraeth

Mae incwm rheolaidd o grantiau, contractau a gwasanaethau eraill a ddarperir yn cael ei gyfrifyddu ar sail croniadau a'u cynnwys i'r graddau y bo'r contract neu'r gwasanaeth wedi'i gwblhau; mae unrhyw daliadau a dderbynnir cyn cyflawni yn cael eu cydnabod ar y fantolen fel atebolrwyddau.

Grantiau Cyfalaf gan y Llywodraeth

Mae grantiau un tro yn unig a dderbynnir ar gyfer caffael neu adeiladu asedau sefydlog yn cael eu trin fel grantiau cyfalaf wedi'u gohirio. Mae grantiau o'r fath yn cael eu credydu i grantiau cyfalaf wedi'u gohirio a gwneir trosglwyddiad blynyddol i'r cyfrif incwm a gwariant dros oes economaidd defnyddiol yr ased, ar yr un gyfradd â dibrisiant yr ased y dyfarnwyd y grant ar ei gyfer.

Datganiad y prif bolisiau cyfrifyddu (parhad)

Cyllid Grant nad yw gan y Llywodraeth

Mae incwm rheolaidd yn deillio o grantiau, cytundebau a gwasanaethau eraill a ddarperir yn cael ei gyfrifyddu ar sail perfformiad ac yn cael ei gynnwys i'r graddau y bo'r contract neu'r gwasanaeth wedi'i gwblhau; mae unrhyw daliadau a dderbynnir cyn cyflawni yn cael eu cydnabod ar y fantolen fel atebolrwyddau.

Cyfraniadau a Gwaddolion

Mae trafodion dim cyfnewid heb amodau yn gysylltiedig â pherfformiad yn gyfraniadau a gwaddolion. Cydnabyddir cyfraniadau a gwaddolion gyda chyfyngiadau wedi'u nodi gan y rhoddwr yn yr incwm pan fo gan y Brifysgol yr hawl i gael yr arian. Cedwir yr incwm mewn cronfa wrth gefn gyfyngedig nes ei fod yn cael ei ddefnyddio yn unol â chyfyngiadau o'r fath, a bryd hynny mae'r incwm yn cael ei ryddhau i'r cronfeydd cyffredinol trwy drosglwyddiad cronfa wrth gefn.

Mae cyfraniadau heb gyfyngiadau'n cael eu cydnabod yn yr incwm pan fo gan y Brifysgol yr hawl i gael yr arian.

Cofnodir incwm buddsoddi ac elw gwaddolion yn yr incwm yn y flwyddyn y cyfyd, ac un ai fel incwm cyfyngedig neu anghyfyngedig, yn unol â thelerau cyfyngiadau eraill sy'n berthnasol i'r gronfa waddol unigol.

Nodir pedwar prif fath o gyfraniadau a gwaddolion yn y cronfeydd wrth gefn:

1. Cyfraniadau wedi'u cyfyngu – mae'r rhoddwr wedi nodi bod rhaid i'r cyfraniad gael ei ddefnyddio at amcan penodol.
2. Gwaddolion parhaol heb eu cyfyngu – mae'r rhoddwr wedi nodi bod y gronfa i'w buddsoddi'n barhaol i gynhyrchu ffrwd incwm er budd cyffredinol y Brifysgol.
3. Gwaddolion gwariadwy wedi'u cyfyngu – mae'r rhoddwr wedi nodi amcan penodol yn hytrach na phrynu neu adeiladu asedau sefydlog diriaethol, ac mae gan y Brifysgol y pŵer i ddefnyddio'r cyfalaf.
4. Gwaddolion parhaol wedi'u cyfyngu – mae'r rhoddwr wedi nodi bod y gronfa i'w buddsoddi'n barhaol i gynhyrchu ffrwd incwm i'w defnyddio ar gyfer amcan penodol.

Trefniadau asiantaeth

Mae cronfeydd mae'r Brifysgol yn eu derbyn a'u dosbarthu fel asiant talu ar ran cyrff cyllido yn cael eu heithrio o incwm a gwariant y Brifysgol lle mae'r Brifysgol yn wynebu risg isel iawn neu'n cael budd economaidd bach iawn yn gysylltiedig â'r trafodion.

Gwnaeth y Brifysgol ymrwymo i gytundeb asiantaeth o ran darparu gwasanaethau arlwygo yng nghampws Plas Coch yn ystod 2017/18, ac mae'r cytundeb yn parhau. Mae'r holl incwm a gwariant cysylltiedig wedi'i gynnwys yn Natganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Brifysgol gan fod y Brifysgol yn cadw risgiau neu wobrau'r gweithgaredd dan y cytundeb asiantaeth hwn.

Lesau a chytundeb hur brynu

Codir y costau'n gysylltiedig â lesau gweithredol ar sail llinell syth dros gyfnod y les.

Datganiad y prif bolisiau cyfrifyddu (parhad)

Mae lesau cyllido, sy'n trosglwyddo holl fuddion a risgiau perchnogaeth ased yn sylweddol i'r Brifysgol, yn cael eu trin fel petai'r ased wedi'i brynu'n gyfangwbl. Cynhwysir yr asedau yn yr asedau sefydlog a dangosir elfennau cyfalaf yr ymrwymadau les fel ymrwymadau dan lesau cyllid.

Mae'r eitemau rhentu les yn cael eu trin fel rhai sy'n cynnwys elfennau cyfalaf a llog. Defnyddir yr elfen gyfalaf er mwyn lleihau'r ymrwymadau sy'n ddyledus, a chodir yr elfen llog yn erbyn y cyfrif incwm a gwariant yn gyfrannol i'r elfen gyfalaf leihaol sy'n weddill.

Mae asedau dan les cyllid yn cael eu dibrisio dros y cyfnod byrraf o un ai gyfnod y les neu oes economaidd defnyddiol asedau cyfatebol sy'n eiddo i'r Brifysgol.

Mae lesio asedau dan les cyllido (Stadiwm y Cae Ras a Pharc y Glowyr) yn cael eu trin fel dyledwr tymor byr a thymor hir yn cynnwys elfennau cyfalaf a llog. Defnyddir yr elfen gyfalaf er mwyn lleihau'r ymrwymadau dyledwr sy'n ddyledus, a chofnodir yr elfen llog fel incwm yn y cyfrif incwm a gwariant yn gyfrannol i'r elfen gyfalaf leihaol sy'n weddill.

Trethiant

Mae'r Brifysgol yn elusen eithriedig yn unol ag ystyr Rhan 3 Deddf Elusennau 2011. Felly mae'n elusen yn unol ag ystyr Paragraff 1 atodlen 6 Deddf Cyllid 2010 ac, yn unol â hynny, mae potensial i'r Brifysgol gael ei heithrio rhag Treth Gorfforaeth y Deyrnas Unedig o ran incwm neu enillion cyfalaf yn y categorïau a gwmpasir gan adran 478-488 Deddf Treth Gorfforaeth 2010 neu adran 256 Deddf Trethiant Enillion Trethadwy 1992, i'r graddau fod incwm neu enillion o'r fath yn cael eu defnyddio at ddibenion elusennol yn unig.

Mae'r holl is-gwmnïau yn y Deyrnas Unedig yn atebol i dalu treth gorfforaeth yn yr un modd ag unrhyw sefydliad masnachol.

Nid yw'r Brifysgol yn derbyn unrhyw eithriadau o'r fath o ran Treth ar Werth. Mae Treth ar Werth na ellir ei adennill ar fewnbynau yn cael ei gynnwys yng nghostau mewnbynau o'r fath. Mae unrhyw Dreth ar Werth na ellir ei adfer a ddyrennir i asedau sefydlog diriaethol yn cael ei chynnwys yn eu cost.

Mae'r holl is-gwmnïau yn y Deyrnas Unedig yn atebol i Dreth ar Werth yn yr un modd ag unrhyw sefydliad masnachol arall, ac eithrio unrhyw addysg neu hyfforddiant a ddarperir gan is-gwmni prifysgol sy'n ddarpariaeth addysg sy'n cael ei eithrio.

Asedau diriaethol sefydlog

Nodir asedau sefydlog ar eu cost tybiedig llai dibrisiant cronuss a cholledion diffygiant cronuss. Mae rhai eitemau penodol asedau sefydlog a gafodd eu hailbriso i brisiant teg ar neu cyn y dyddiad trosglwyddo i Ddatganiad o'r Arfer a Argymhellir: Addysg Uwch ac Addysg Bellach 2015 yn cael eu mesur ar sail cost tybiedig, sef y swm ailbriso ar ddyddiad yr ailbriso hwnnw.

Lle bo gan rannau ased sefydlog hyd oes defnyddiol gwahanol, fe'u cyfrifyddir fel eitemau ar wahân dan asedau sefydlog.

Nid yw tir rhydd-ddaliad yn cael ei ddibrisio. Mae adeiladau rhydd-ddaliad yn cael eu dibrisio dros eu cyfnod oes economaidd defnyddiol disgwylidig o 50 mlynedd. Dibrisir y cae hoci dros ei oes defnyddiol disgwylidig o 10 mlynedd. Mae gwariant cyfalaf sy'n berthnasol i adeiladau sy'n bodoli eisoes yn cael ei ddibrisio dros eu hamcangyfrif oes defnyddiol o 10 mlynedd.

Datganiad y prif bolisiau cyfrifyddu (parhad)

Lle bo adeiladau'n cael eu caffael gyda chymorth grantiau penodol gan y llywodraeth maent yn cael eu cyfalafu a'u dibrisio fel uchod. Mae'r grantiau cysylltiedig yn cael eu credydu i gyfrif grant cyfalaf wedi'i ohirio ac yn cael eu rhyddhau i'r cyfrif incwm a gwariant dros oes economaidd defnyddiol disgwylidig yr ased perthnasol ar sail sy'n gyson gyda'r polisi dibrisio.

Mae gosodiadau, ffitiadau ac offer sy'n costio llai na £10,000 am bob eitem unigol yn cael eu dileu i'r cyfrif incwm a gwariant yn y cyfnod caffael. Mae'r holl osodiadau, ffitiadau ac offer arall yn cael eu cyfalafu ar sail y gost. Mae cerbydau modur yn cael eu cyfalafu ar sail eu cost.

Mae'r holl asedau'n cael eu dibrisio dros amcangyfrif eu hoes economaidd defnyddiol, fel a ganlyn:

- Gosodiadau, ffitiadau ac offer – pum mlynedd
- Cerbydau modur – tair blynedd

Lle bo offer yn cael ei gaffael gyda chymorth grantiau penodol gan y llywodraeth mae'n cael ei gyfalafu a'i ddibrisio yn unol â'r polisi uchod, gyda'r grantiau cysylltiedig yn cael eu credydu i gyfrif grant cyfalaf wedi'i ohirio ac yn cael eu rhyddhau i'r cyfrif incwm a gwariant dros oes economaidd defnyddiol disgwylidig yr offer perthnasol. Polisi'r Brifysgol yw peidio ag ailbriso'r dosbarth asedau hwn.

Mae offer a geir ar gyfer prosiect wedi'i gyllido'n benodol yn cael ei ddibrisio dros ei hyd oes defnyddiol disgwylidig, sy'n cyfateb i gyfnod y prosiect yn arferol.

Cynhelir adolygiad diffygiant ased sefydlog os yw digwyddiadau neu newid mewn amgylchiadau yn dangos efallai nad yw swm cyfredol yr ased sefydlog yn adferadwy.

Mae unrhyw amhariadau oherwydd defnyddio'r buddion economaidd yn cael eu cydnabod yn y cyfrif incwm a gwariant yn y cyfnod y maent yn digwydd.

Mae unrhyw ailbriso ar i lawr nad yw oherwydd defnyddio'r buddion economaidd yn cael ei gydnabod yn y datganiad cyfrif incwm a gwariant cynhwysfawr hefyd yn y cyfnod y mae'n digwydd.

Mae gwariant i sicrhau bod ased sefydlog diriaethol yn cynnal ei safon perfformiad blaenorol yn cael ei gydnabod yn y cyfrif incwm a gwariant yn y cyfnod y mae'n digwydd.

Mae gan y Brifysgol raglen cynnal a chadw cynlluniedig, sy'n cael ei hadolygu'n flynyddol.

Buddsoddiadau

Dangosir buddsoddiadau a restrir a gedwir fel asedau gwaddol ar werth y farchnad. Dangosir buddsoddiadau mewn gweithgareddau is-gwmni ac endidau heb eu rhestru ar yr isaf o un ai'r gost neu'r gwerth net y gellir ei wireddu.

Cynhwysir buddsoddiadau asedau cyfredol ar yr isaf o un ai'r gost neu'r gwerth net y gellir ei wireddu.

Stoc

Mae stoc yn cael ei ddatgan ar yr isaf o un ai'r gost neu'r gwerth net y gellir ei wireddu.

Datganiad y prif bolisiau cyfrifyddu (parhad)

Arian parod ar hyn sy'n cyfateb i arian parod

Mae llifau arian yn cynnwys cynnydd neu leihad mewn arian mewn llaw, arian yn y banc ac adneuon sy'n ad-daladwy ar gais. Mae adneuon yn ad-daladwy ar gais os ydynt, yn ymarferol, ar gael cyn pen 24 awr heb gosbau. Nid oes unrhyw fuddsoddiadau eraill, waeth pa mor hylifol ydynt, yn cael eu cynnwys fel arian parod.

Mae adnoddau hylifol yn cynnwys symiau wedi eu hadneuo yn y tymor byr gyda banciau cydnabyddedig. Maent yn cynnwys unrhyw asedau o'r fath sy'n cael eu cadw fel asedau gwaddol.

Defnyddiwyd yr eithriad o'r gofyniad i baratoi datganiad llif arian ar wahân ar gyfer y Brifysgol dan Safon Adrodd Ariannol 102.

Trosi arian tramor

Mae asedau ac atebolrwyddau a nodir mewn arian tramor yn cael eu trosi i gyfrwng arian y grŵp (Sterling) ar y cyfraddau cyfnewid sy'n berthnasol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, gyda'r holl wahaniaethau cyfnewid sy'n deillio o hynny yn cael eu nodi yn y cyfrif incwm a gwariant yn y cyfnod y maent yn codi.

Offerynnau ariannol

Rheoli Risgiau

Prif offerynnau ariannol y Brifysgol yw arian parod, buddsoddiadau a benthyciadau. Amcan craidd yr offerynnau ariannol hyn yw bodloni anghenion cyllido gweithrediadau'r Brifysgol. Yn ychwanegol, mae gan y Brifysgol asedau ac atebolrwyddau ariannol eraill sy'n codi'n uniongyrchol o'i weithrediadau h.y. dyledwyr a chredydwyr masnach.

Rydym ni wedi asesu effaith potensial Brexit ar y sefydliad ar hyn o bryd, ac ystyri'r nad oes unrhyw effaith perthnasol na risg arwyddocaol i'r sefydliad fel busnes gweithredol.

Risg Credyd

Mae risg credyd yn cyfeirio at y risg y bydd gwrthbarti'n methu â chadw at ei ymrwymadau cytundebol gan arwain at golled ariannol i'r Brifysgol.

Adolygir dyledwyr masnachol a dyledion myfyrwyr yn barhaus a gwneir darpariaeth dyled ddrwg os yw adfer y ddyled yn dod yn ansicr. Os penderfynir bod dyled yn anadferadwy mae'r ddyled yn cael ei dileu. Mae crynodiad y risg yn gyfyngedig oherwydd y nifer fawr o gwsmeriaid amrywiol ar draws y poblogaethau myfyrwyr a chwsmeriaid masnachol.

Risg hylifedd

Mae risg hylifedd yn cyfeirio at y risg na fydd y Brifysgol yn medru talu ei hymrwymadau ariannol wrth iddynt ddod yn ddyledus. Mae monitro risg hylifedd yn rheolaidd yn nodwedd hanfodol gweithgareddau rheolaeth trysorlys.

Mae rhagfynegiadau llif arian yn ffurfio rhan o broses cynllun 5 mlynedd y Brifysgol, ac fe'u hadolygir yn ystod y flwyddyn ariannol

Mae risg arian tramor yn cyfeirio at y risg y gallai newid anffafriol yn y cyfraddau cyfnewid achosi colled ariannol i'r Brifysgol. Y prif arian tramor y mae'r Brifysgol yn dod i gysylltiad ag ef yw'r Ewro. Adolygir lefel gweithredu Ewros yn rheolaidd i liniaru'r risg o newidiadau cyfradd cyfnewid andwyol.

Datganiad y prif bolisiau cyfrifyddu (parhad)

Cyfrifyddu buddion ymddeol

Y tri phrif gynllun pensiwn i staff y Brifysgol yw:

1. Y Cynllun Pensiwn Athrawon
2. Y Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion
3. Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae'r holl gynlluniau yn gynlluniau buddion diffiniedig sy'n cael eu rheoli'n allanol ac wedi contractio allan o Ail Bensiwn y Wladwriaeth. Fodd bynnag, ni ellir penderfynu ar elfen ariannol Prifysgol Glyndŵr yn y Cynllun Pensiwn Athrawon a Chynllun Blwydd-dal y Prifysgolion ac felly mae'r rhain yn cael eu trin fel cynlluniau cost diffiniedig dan Safon Adrodd Ariannol 102.

Mae'r cyfraniadau i'r cynllun yn cael eu nodi ar y cyfrif incwm a gwariant er mwyn lledaenu cost pensiynau dros fywyd gwaith cyflogaion gyda'r Brifysgol yn y fath fodd fel bod y cost pensiwn yn ganran cyson ar y cyfan o'r gyflogres bensiynadwy gyfredol ac yn y dyfodol. Mae amrywiadau i'r costau rheolaidd yn cael eu lledaenu ar draws hyd oes gwaith cyfartalog sy'n weddill aelodau'r cynllun, ar ôl caniatáu ar gyfer rhagor o dynnu allan.

Penderfynir ar y cyfraniadau gan actiwariaid cymwysedig ar sail prisiau bob tair blynedd, gan ddefnyddio'r dull uned dafluniedig. Ni ellir penderfynu ar elfen ariannol Prifysgol Glyndŵr yn y Cynllun Pensiwn Athrawon a Chynllun Blwydd-dal y Prifysgolion ac felly mae'r rhain yn cael eu trin fel cynlluniau cost diffiniedig dan Safon Adrodd Ariannol 102.

Mae gwarged neu ddiffyg y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cael ei gydnabod fel ased neu atebolwydd ar y fantolen. Cofnodir cost y rhai sy'n gwasanaethu'n gyfredol a chostau gwasanaeth blaenorol yn y costau staff.

Cyfrifir yr elfen llog ar sail diffyg diwedd y flwyddyn (atebolwydd net) wedi'i luosi gyda'r gyfradd ddisgownt. Mae'r holl newidiadau yn y gwarged neu'r diffyg pensiwn oherwydd newidiadau mewn tybiaethau actiwaraid neu'r gwahaniaeth rhwng rhagfynegiadau actiwaraid a'r alldro go iawn yn cael eu hadrodd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Cofnodir atebolwydd yn y darpariaethau ar gyfer unrhyw ymrwymiad cytunedol i gyllido diffygion yn y gorffennol yn Nghynllun Blwydd-dal y Prifysgolion.

Darpariaethau, atebolwyddau digwyddiadol ac asedau digwyddiadol

Cydnabyddir darpariaethau yn y datganiadau ariannol dan yr amgylchiadau isod:

- a) pan fo'r Brifysgol yn wynebu ymrwymiad cyfreithiol neu adeiladol presennol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol
- b) ei bod yn debygol y bydd yn ofynnol trosglwyddo buddion economaidd i setlo'r ymrwymiad;
a
- c) gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy ynghylch swm yr ymrwymiad.

Mae'r swm a nodir fel darpariaeth yn cael ei leihau i'r gwerth presennol lle bo gwerth amser arian yn berthnasol.

Mae atebolwydd digwyddiadol yn deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol sy'n rhoi ymrwymiad posibl i'r Brifysgol y bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau'n unig gan ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol fel arall yn digwydd, nad yw'n gyfangwbl o dan reolaeth y Brifysgol. Mae atebolwyddau

Datganiad y prif bolisiau cyfrifyddu (parhad)

digwyddiadol hefyd yn codi mewn amgylchiadau lle byddai darpariaeth wedi'i gwneud fel arall ond un ai nid yw'n debygol y bydd angen all-lif adnoddau neu ni ellir mesur swm yr ymrwymiad yn ddibynadwy.

Cyfyd ased digwyddiadol pan fo digwyddiad wedi digwydd sy'n rhoi ased tebygol i'r Brifysgol y bydd ei bodolaeth yn cael ei chadarnhau'n unig gan ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol fel arall yn digwydd, nad yw'n gyfangwbl o dan reolaeth y Brifysgol.

Nid yw asedau ac atebolrwyddau digwyddiadol yn cael eu cydnabod yn y Fantolen, ond fe'u datgelir trwy gyfrwng nodyn.

Barnau ac amcangyfrifon cyfrifyddu

Defnyddiwyd y barnau a'r amcangyfrifon allweddol isod wrth lunio'r datganiadau ariannol hyn.

- Defnyddiwyd barnau cyfrifyddu'r Cynllun Pensiwn Blwydd-dal y Prifysgolion gan ddefnyddio pecyn modelu safonol y Cynllun ar gyfradd disgownt sy'n cyd-fynd â chanllawiau BUFDG ac yn unol â disgwyliadau cynnydd yn y nifer ar y gyflogres gan y Brifysgol yn y dyfodol.
- Darparwyd barnau cyfrifyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan actiwariaid y cynllun, Mercers.
- Ar 31 Gorffennaf 2021, er mwyn adlewyrchu effaith cynigion Canghellor y Deyrnas Unedig ac Awdurdod Ystadegau y Deyrnas Unedig i alinio'r Mynegai Prisiau Adwerthu gyda'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn cynnwys amcangyfrif o gostau tai, ailaseswyd methodoleg tybio'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Yn benodol cynigiodd actiwari'r gronfa leihau'r bwlch tymor hir tybiedig rhwng chwyddiant Mynegai Costau Adwerthu a chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr o 120 pwynt i 80 pwynt ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Disgwylir i effaith y newid hwn achosi cynnydd o tua £8,000k yn rhwymedigaethau'r Cronfa ers diwedd y flwyddyn flaenorol gan fod y dybiaeth Mynegai Prisiau Defnyddwyr bellach 0.4% yn uwch nag y byddai wedi bod dan fethodoleg y flwyddyn flaenorol.
- Yn ystod 2019/20 derbyniodd y Brifysgol ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad tai ar Chwarter Gogledd campws Plas Coch. Cwtogwyd gwerth daliol yr ased yn ystod 2018/19 o £700k i adlewyrchu amcangyfrif y pris gwerthu. Cwblhawyd gwerthu'r safle yn ystod Awst 2021 heb unrhyw wahaniaeth perthnasol o'r gwerth daliol cyfredol.
- Amcangyfrifwyd y cronïad tâl gwyliau gan ddefnyddio methodoleg sampl uniongyrchol o adrannau Grŵp y Brifysgol (academaidd ac anacademaidd) trwy gymryd y lefelau gwyliau gwirioneddol ar 31 Gorffennaf 2021 a'i ddefnyddio ar sail canran.

Cronfeydd wrth gefn

Mae cronfeydd wrth gefn yn cael eu dynodi fel rhai cyfyngedig neu anghyfyngedig. Mae cronfeydd gwaddol cyfyngedig yn cynnwys balansau sydd, trwy waddol i Grŵp y Brifysgol, yn cael eu cadw fel cronfa wedi'i chyfyngu'n barhaol y mae'n rhaid i'r Grŵp ei chadw am byth.

Mae cronfeydd cyfyngedig eraill yn cynnwys balansau lle mae'r rhoddwr wedi penodi pwrpas penodol ac felly mae'r Grŵp wedi'i gyfyngu o ran defnydd y cronfeydd hyn.

Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Brifysgol a Chyfunol

Blwyddyn yn diwedd 31 Gorffennaf 2021

Nodyn	Blwyddyn yn diwedd 31 Gorffennaf 2021		Blwyddyn yn diwedd 31 Gorffennaf 2020		
	£'000	£'000	£'000	£'000	
	Cyfunol	Y Brifysgol	Cyfunol	Y Brifysgol	
Incwm					
Ffioedd dysgu a chytundebau addysg	1	31,630	31,630	26,921	26,921
Grantiau gan gyrrff cyllido	2	9,233	9,233	4,164	4,164
Grantiau a chytundebau ymchwil	3	1,138	1,138	679	679
Incwm arall	4	4,916	2,987	5,085	3,246
Incwm buddsoddi	5	130	130	131	131
Cyfraniadau a gwaddolion	6	5	4	0	0
Cyfanswm incwm		47,052	45,122	36,980	35,141
Gwariant					
Costau staff	7	19,095	17,711	18,684	17,300
Costau pensiwn eraill	7	1,696	1,548	1,446	1,271
Pensiwn Cyflogwr Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	7	3,206	3,206	3,064	3,064
Costau gwasanaeth blaenorol Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	7	0	0	173	173
Treuliau gweithredol eraill	9	17,605	16,773	10,607	10,021
Dibrisiant	11	2,740	2,646	1,674	1,660
Amhariad asedau sefydlog	11	98	98	0	0
Llog a chostau cyllid eraill	7	881	881	977	977
Costau ailstrwythuro sylfaenol	6	0	0	0	0
Cyfanswm gwariant ac eithrio costau llog net		45,321	42,863	36,625	34,466
Gwarged gweithredol cyn amhariad ac effaith pensiwn un tro'n unig		1,829	2,357	528	848
Gwarged gweithredol cyn amhariad ac effaith pensiwn un tro'n unig		1,731	2,259	355	675
Elw ar waredu ased sefydlog	11	(3)	0	424	428
Gwarged / (Diffyg) cyn treth		1,728	2,259	779	1,103
Trethiant	10	20	20	66	66
Gwarged / (Diffyg) am y flwyddyn		1,708	2,239	713	1,037
Trosglwyddiadau rhwng ailbriso a chronfa wrth gefn incwm a gwariant		0	0	-	-
Colled actiwaraidd o ran cynlluniau pensiwn	21	6,319	6,319	(8,578)	(8,578)
Newid yng ngwerth teg offerynnau rhagfantoli ariannol		0	0	-	-
Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn		8,027	8,558	(7,865)	(7,541)
Cynrychiolir gan:					
Incwm cynhwysfawr gwaddol am y flwyddyn		0	0	-	-
Gwariant cynhwysfawr anghyfyngedig am y flwyddyn		8,027	8,558	(7,865)	(7,541)
Priodoladwy i Grŵp y Brifysgol		8,027	8,558	(7,865)	(7,541)
Gwarged am y flwyddyn yn briodoladwy i:					
Buddiant nad yw'n fuddiant rheoli		0	0	-	-
